

Canllawiau cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu

Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a
Throseddu yng Nghymru a Lloegr ar
5 Mai 2016

Medi 2015

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Mawrth 2016	Wedi ei ailgyhoeddi i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol	DD/G

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
	Diben.....	1
	Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn	2
2	Etholiadau mis Mai 2016	4
	Natur yr etholiadau a ymleddir	5
3	Rolau a chyfrifoldebau yn etholiadau Mai 2016	8
	Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.....	8
	Rolau a chyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau eraill yn etholiadau Mai 2016	10
	Cymru	10
	Lloegr.....	12
	Swyddog Cofrestru Etholiadol	14
	Cyfrifoldeb personol	16
	Yswiriant ac indemnïad.....	17
	Eich sgiliau a'ch gwybodaeth	17
	Safonau perfformiad.....	19
5	Gwaith cynllunio a threfnu	24
	Cynllun prosiect.....	24
	Cofrestr risg.....	26
	Staffio	26
	Cyfathrebu.....	27
	Codi ymwybyddiaeth	28
	Gwybodaeth i etholwyr	29
	Cysylltu â'r cyfryngau	29
6	Agweddau penodol ar y broses etholiadol	31
	Ymgeiswyr ac asiantau	32
	Y gofrestr etholwyr.....	33
	Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau	34
	Paratoi papurau pleidleisio	35
	Lliw'r papur pleidleisio.....	36
	Manylebau argraffu.....	36
	Pleidleisio absennol	37
	Cynnal uniondeb yr etholiad.....	37

Dilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad	38
Egwyddorion ar gyfer prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau effeithiol	39
Dilysu a chyfrif pleidleisiau	40
Pryd i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau	41
Amseriad y cyfrif	43
Trefnu'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau	43
Sut i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau	47
Coladu'r canlyniad	47
Arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn	49
Atodiad A – Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr	50
Atodiad B.....	57

1 Cyflwyniad

Diben

1.1 Diben y canllawiau hyn yw helpu Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu i ymgymryd â'u rôl yn ystod etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a fydd yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2016.

1.2 Cawsant eu datblygu drwy ymgynghori'n fanwl ag aelodau o Fwrdd Cynghori Etholiadol y DU a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestrïadau a Refferenda. Mae'n adlewyrchu'r hyn yr ydym ni, y Bwrdd Cynghori Etholiadol a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestrïadau a Refferenda yn credu y dylai Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ei ddisgwyl gan eu staff wrth baratoi ar gyfer etholiadau 5 Mai 2016 a'u cynnal.

1.3 Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu paratoi drwy ystyried y gofynion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd) a dylid eu darllen yn unol â hi:

- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Etholiadau) (Cymru a Lloegr) 2004
- Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006
- Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006
- Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Mynediad i Ddogfennau Etholiadol) 2007
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012
- Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Dynodi Awdurdodau Lleol) (Rhif 2) 2012
- Rheoliadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Anghymhwyso) (Darpariaethau Atodol) 2012
- Rheoliadau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr

Heddlu a Throseddu (Taliadau Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu) 2012

- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Ffurflenni Cymraeg) 2012
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadau 2013
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) 2015

1.4 Mae'r rhestr uchod ond yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer y meysydd y mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hwy a'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl deddfwriaeth bellach a fydd yn darparu ar gyfer diwygio rheoliadau trefn cynnal etholiadau, rheolau cyfuno yng Nghymru, dynodi Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu a ffioedd a thaliadau.

1.5 Mae'n ofynnol hefyd i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus a geir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

1.6 Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru hefyd ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu yn yr un modd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

1.7 Nod y canllawiau hyn yw tynnu sylw at ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer yr etholiad, y meysydd lle y dylech gydgysylltu â rhanddeiliaid (yn enwedig Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau eraill) er mwyn llywio'ch gwaith cynllunio a sicrhau cysondeb drwy'r ardal heddlu gyfan a'r adnoddau sydd ar gael i'ch helpu i gyflawni hyn yn ymarferol. Dyma'r rhan gyntaf o ganllawiau mewn dwy ran i helpu Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu i gynllunio ar gyfer yr etholiadau a'u cynnal.


1.8 Mae'r rhan hon yn ymdrin â'r canlynol:

- cyd-destun ac amgylchiadau penodol etholiadau Mai 2016
- rolau a chyfrifoldebau
- gwaith cynllunio a threfnu
- agweddau ar y broses etholiadol y mae Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt a lle y gellir ymgymryd â gwaith paratoi cynnar

1.9 Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar fanylion gweinyddu'r broses enwebu a rheoli'r broses o goladu cyfansymiau gan Swyddogion Canlyniadau Lleol a datgan y canlyniadau.

1.10 Mae pob un o rannau'r canllawiau yn ymdrin â'r canlynol:

- yr hyn y mae'n ofynnol i chi ei wneud o dan y gyfraith ('rhaid')
- yr hyn y disgwyliwn y bydd angen i chi ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn gallu bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol safonau perfformiad y Comisiwn
- arfer a argymhellir er mwyn eich helpu i ddeall eich dyletswyddau a'u cyflawni

 Mae'r blychau ar ddechrau pob pennod yn crynhoi'r **camau gweithredu allweddol a'r penderfyniadau** y dylech eu cymryd a'u gwneud nawr o ran cynllunio ar gyfer etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2015 ynghyd â chanllawiau manwl ar y camau gweithredu a'r penderfyniadau hynny a nodir ym mhrif gorff y bennod.

1.11 Mae'r canllawiau hyn wedi'u hategu gan adnoddau y gellir cael gafael arnynt drwy'r dolenni a geir yn y canllawiau.

1.12 Nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Lleol nac fel unrhyw Swyddog Canlyniadau arall na Swyddog Cyfrif yn etholiadau Mai 2016. Mae'r Comisiwn wedi paratoi canllawiau ar wahân i'r canlynol:

- Swyddogion Canlyniadau Lleol yn Lloegr (Ile y cynhelir etholiad [Comisiynydd Heddlu a Throseddu](#) yn unig)
- Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau Lleol yng Nghymru (Ile y caiff pleidlais ar gyfer etholiad [Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei chyfuno â'r bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu](#))
- Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol (Ile y caiff y bleidlais mewn [etholiad llywodraeth leol ei chyfuno â'r bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn Lloegr](#))

1.13 Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n canllawiau neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau Mai 2016, mae [timau lleol y Comisiwn](#) ar gael i roi cymorth drwy'r amser. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor y tu allan i oriau er mwyn ymdrin ag ymholiadau brys am weinyddu etholiadau yn ystod y cyfnod cyn etholiadau Mai 2016 ac yn union ar eu hôl. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau drwy ein Bwletin ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

2 Etholiadau mis Mai 2016



Deall cyd-destun yr etholiadau hyn, yr heriau yn eich ardal a pharatoi ar gyfer ar gyfer cydweithredu effeithiol rhwng pob Swyddog Canlyniadau

Er mwyn gallu cydgysylltu'r broses o weinyddu etholiad yn effeithiol, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn deall yr heriau drwy'r ardal heddlu gyfan a defnyddio hyn i lywio'ch cynlluniau. Er enghraifft:

- A fydd etholiadau cyfun wedi'u trefnu yn eich ardal heddlu? Os felly, faint o etholiadau sy'n cael eu cyfuno? Bydd angen hefyd i chi sicrhau bod eich cynlluniau yn ymdrin â'r posibilrwydd o unrhyw isetholiadau.
- Beth yw lefel gwybodaeth a phrofiad ymhlith Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal o system bleidleisio'r bleidlais atodol a'r prosesau dan sylw? Sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfarwydd â'r prosesau sydd ynghlwm wrth etholiadau'r bleidlais atodol.
- A fu unrhyw newidiadau i'r dirwedd wleidyddol drwy'r ardal heddlu gyfan neu rannau ohoni a allai gael effaith? Er enghraifft, efallai y bydd pleidleiswyr, ymgeiswyr a'r cyfryngau yn rhoi mwy o sylw a bydd angen i chi reoli disgwyliadau pawb sydd â diddordeb yn y canlyniad.
- Faint o bobl a fydd yn debygol o bleidleisio? Dylai'r posibilrwydd o niferoedd mawr yn pleidleisio gael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar y gwaith cynllunio.
- Sicrhau bod eich cynlluniau'n ymdrin â'r posibilrwydd o nifer sylweddol o ymgeiswyr ac asiantau newydd neu lai profiadol.

Er mwyn eich helpu i ateb unrhyw heriau, bydd angen i chi sefydlu prosesau ar gyfer cydweithredu a chyfathrebu effeithiol rhwng y gwahanol Swyddogion Canlyniadau yn eich ardal heddlu.

Bydd angen hefyd i chi roi cynlluniau manwl a chadarn ar waith i fonitro a chynnal uniondeb drwy'r ardal heddlu gyfan.

2.1 Bydd etholiadau 5 Mai 2016 yn cynnig eu heriau penodol eu hunain, a bydd eich gwaith i gynnal etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau sydd wedi'i drefnu'n dda yn destun cryn sylw – gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a'r cyfryngau.

2.2 Er bod gwersi y gellir eu dysgu ac y dylid eu dysgu o'r profiad yn 2012, dim ond yr ail gyfres o etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau wedi'u trefnu yw hon ac felly mae profiad o reoli'r math hwn o etholiad yn gyfyngedig, hyd yn oed i'r rhai sydd wedi gweithio fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu o'r blaen. Sut bynnag, mae'r newidiadau mewn deddfwriaeth – a'r dirwedd – ers yr etholiad diwethaf ynghyd â faint o etholiadau a fydd yn cael eu cyfuno yng Nghymru a rhannau helaeth o Loegr, yn gwneud y digwyddiad

hwn yn wahanol i bob digwyddiad etholiadol arall rydych wedi'i drefnu o bosibl yn y gorffennol.

2.3 Mae'r bennod hon yn ceisio amlygu rhai o'r agweddau penodol ar gyddestun sy'n berthnasol i'r etholiadau hyn. Dylech sicrhau eu bod wrth wraidd pob agwedd ar eich gwaith cynllunio.

Cyfuno

2.4 Bydd Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ledled Cymru a Lloegr yn wynebu eu heriau penodol eu hunain, ac un ffactor allweddol sy'n effeithio ar y ffordd y cynhelir yr etholiad ym mhob achos fydd a yw'r bleidlais yn etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall.

2.5 Yng **Nghymru**, mae cyfuno'r bleidlais yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru â'r bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cynnig heriau penodol o ran cynllunio ar gyfer yr etholiadau a'u trefnu. Bydd angen i bob Swyddog Canlyniadau perthnasol a'i staff gyfathrebu'n gynnar â'i gilydd a bydd angen cydweithio parhaus effeithiol rhyngddynt er mwyn sicrhau etholiadau wedi'u cynnal yn dda.

2.6 Yn **Lloegr**, mae etholiadau llywodraeth leol (gan gynnwys etholiadau plwyf a maerol), a refferenda cynllunio cymdogaeth a refferenda'r dreth gyngor o bosibl, yn cael eu cynnal mewn rhannau o'r wlad ac fel y cyfryw efallai y bydd rhai ardaloedd pleidleisio neu bob ardal pleidleisio o fewn ardal yr heddlu lle y caiff y bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall neu etholiadau eraill. Bydd cydweithredu effeithiol rhwng y gwahanol Swyddogion Canlyniadau yn ardal yr heddlu yn hollbwysig. Yn benodol, mae cyfuno yn cynnig heriau penodol o ran gwybodaeth i bleidleiswyr a chymhlethdod prosesau dilysu a chyfrif.

Natur yr etholiadau a ymleddir

2.7 Bydd etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn wahanol iawn i etholiadau eraill yn y DU. Er enghraifft, os bydd mwy na dau ymgeisydd yn sefyll yn ardal yr heddlu, caiff yr etholiad ei gynnal o dan system y Bleidlais Atodol, sydd ond yn cael ei defnyddio mewn etholiadau maerol fel arall ac sy'n golygu na fydd llawer o Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfarwydd â'r prosesau dan sylw o bosibl. Mewn etholiad a gynhelir o dan system y Bleidlais Atodol, gall pleidleiswyr bleidleisio dros yr ymgeisydd dewis cyntaf ac ail ddewis y maent am iddo gael ei ethol. Os bydd ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau dewis cyntaf, caiff ei (h)ethol. Os na fydd unrhyw ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf, bydd enw pob ymgeisydd heblaw am y rhai yn y safle cyntaf neu'r ail safle yn cael ei dynnu o'r cyfrif. Caiff y papurau pleidleisio sy'n dangos ffafriaeth dros un o'r ymgeiswyr a gafodd ei dynnu o'r cyfrif eu gwirio ar gyfer eu hail ffafriaeth. Yna caiff unrhyw bleidleisiau ail ffafriaeth ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill

eu hychwanegu at eu pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a chaiff yr ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau ei ethol.

2.8 Hefyd, mae'r etholiadau yn golygu cydgysylltu dros nifer o ardaloedd awdurdod lleol. At hynny, bydd heriau o ran sicrhau bod pleidleiswyr yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gallu bwrw eu pleidlais – neu eu pleidleisiau lle y caiff etholiadau eu cyfuno – yn y modd y bwriadant.

2.9 Mae'r tabl yn [Atodiad B](#) yn dangos y gwahanol systemau pleidleisio sy'n debygol o gael eu defnyddio ar 5 Mai 2016 ac a allai gael eu defnyddio drwy'ch ardal heddlu gyfan neu rannau ohoni.

2.10 Gallai'r dirwedd wleidyddol newidiol olygu, hyd yn oed mewn mannau lle y bu mwyafrif mawr yn draddodiadol, efallai na fydd hyn yn wir mwych, gan olygu y gallai'r ffocws a'r amgylchiadau fod yn wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn eich ardal o'r blaen.

2.11 Efallai y bydd nifer sylweddol o ymgeiswyr ac asiantau newydd neu lai profiadol sy'n anghyfarwydd ag arferion a phrosesau etholiad ac y bydd angen eich cymorth arnynt er mwyn gallu cymryd rhan yn effeithiol. Bydd gan hyd yn oed y rhai mwy profiadol ychydig o brofiad o sefyll mewn etholiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu o ystyried bod yr etholiadau hyn yn gymharol newydd o hyd.

2.12 O ystyried pa mor agos ac anodd y gallai'r etholiadau fod, dylech fod yn barod i'w huniondeb fod yn destun craffu. Bydd honiadau ac achosion o dwyll etholiadol nid yn unig yn cael effaith negyddol ar hyder etholwyr ac ymgyrchwyr, ond gallant hefyd gael effaith sylweddol ar eich gallu i reoli'r broses etholiadol yn effeithiol. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn gweithredu cynlluniau manwl a chadarn ar gyfer monitro a chynnal uniondeb yr etholiadau yn eich ardal. Dylech weithio'n agos gyda'r heddlu lleol, gan sicrhau bod gennych linellau cyfathrebu da ar waith ar gyfer atgyfeirio unrhyw honiadau.

Maint

2.13 Bydd angen i sawl agwedd ar gynllunio'r etholiadau adlewyrchu tybiaethau o ran y niferoedd tebygol a wnaiff bleidleisio. Bydd gwneud y fath dybiaethau ar gam cynnar o'r gwaith cynllunio yn allweddol gan mai prin y gellir newid cynlluniau ar gam hwyrach yn y broses. Mae heriau bob amser yn gysylltiedig â datblygu tybiaethau cynllunio o'r fath. Yn aml, bydd yn anodd rhagfynegi, cyn cyfnod yr etholiad, y lefelau tebygol o ymgysylltu yn yr etholiadau dan sylw. O ystyried y posibilrwydd y bydd cryn ddiddordeb yn yr etholiadau, na fydd rhywfaint o hynny'n dod i'r amlwg tan yn agos i'r etholiadau, dylai'r posibilrwydd o niferoedd mawr yn pleidleisio gael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar y gwaith cynllunio ar gyfer yr etholiadau.

2.14 Wrth i'r etholiadau ddod yn agosach, bydd y cyd-destun yn dal i newid wrth i'r ymgyrchoedd gynhesu. Bydd angen i chi fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau a allai gael effaith ar gynnal yr etholiadau'n effeithiol, a fydd yn cynnwys cael cynlluniau wrth gefn cadarn i'w rhoi ar waith os bydd angen. Er

enghraifft, os bydd dadleuon arweinwyr a ddarlledir ar y teledu ar yr etholiadau sy'n cael eu cynnal mewn mannau eraill o'r DU ar 5 Mai 2016, gallai'r rhain o bosibl arwain at ymchwydd hwyr yn y niferoedd sydd am bleidleisio.

2.15 Dylid rhagweld y posibilrwydd y bydd nifer fawr o geisiadau i gofrestru yn agos i'r terfyn amser ar gyfer yr etholiadau a chynnwys hynny yn y gwaith cynllunio, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o brofiad etholiadau Mai 2015.

2.16 Gallai fod cryn sylw ymhlith y cyfryngau ar y broses o ddilysu, cyfrif a datganiad canlyniad yr etholiad a bydd yn bwysig rheoli disgwyliadau, nid yn unig disgwyliadau'r cyfryngau ond pawb sydd â diddordeb yn y canlyniadau, drwy ymgynghori ynglŷn â'ch dull gweithredu arfaethedig ac yna gyfleu'n glir yr hyn rydych yn disgwyl ei ddarparu ac erbyn pryd, yn enwedig lle y bydd cyfuno etholiadau yn effeithio ar eich amseroedd datgan canlyniad disgwylidiedig.

2.17 Bydd amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar y ffordd y caiff y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau ei rheoli ym mhob ardal heddlu – bydd maint, poblogaeth, daearyddiaeth a demograffeg ardal yr heddlu, a faint o etholiadau sy'n cael eu cyfuno, oll yn cael effaith ar yr opsiynau a fydd ar gael i reoli'r rhan hon o'r broses. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am ymgysylltu ac ymgynghori'n gynnar ynglŷn â sut y caiff y rhain eu rheoli.

2.18 Yn benodol, bydd y nifer sy'n pleidleisio yn effeithio ar y gwaith cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif, a bydd yn hanfodol bod darpariaeth briodol wedi'i gwneud er mwyn sicrhau bod y prosesau dilysu a chyfrif mor gywir ac mor effeithlon â phosibl. Oherwydd y posibilrwydd y bydd angen dau gylich cyfrif mewn etholiad pleidlais atodol mae ffactorau ychwanegol y bydd angen i chi eu hystyried wrth gynllunio'r broses o goladu'r canlyniad yn gyffredinol er mwyn cydgysylltu amseriad a threfniadau dilysu a chyfrif er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mewn modd amserol ac effeithiol drwy'r ardal heddlu gyfan.

3 Rolau a chyfrifoldebau yn etholiadau Mai 2016



Deall y strwythur rheoli sydd ar waith i weinyddu'r etholiadau drwy'ch ardal heddlu gyfan

- Penderfynwch ar y ffordd y byddwch yn sicrhau y caiff yr etholiadau eu gweinyddu'n gyson drwy'r ardal heddlu gyfan (gweler hefyd Bennod 4 am ragor o wybodaeth).
- Mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol, penderfynwch a fyddwch yn cadw'r cyfrifoldeb am argraffu papur pleidleisio etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a chyfrif pleidleisiau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu eich hun. Lle na chaiff etholiadau eu cyfuno, gallwch hefyd gadw'r cyfrifoldeb am ddilysu papurau pleidleisio eich hun.

Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu

3.1 Ceir 41 o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr (heb gynnwys Llundain).¹ Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am ddynodi Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar gyfer pob ardal heddlu, y mae'n rhaid iddo/iddi fod yn Swyddog Canlyniadau Gweithredol dros etholaeth Senedd y DU sydd o fewn ardal yr heddlu yn gyfan gwbl neu'n rhannol.¹

3.2 Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu sy'n gyfrifol am drefn cynnal etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gyffredinol, ac am gydgyssylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn ardal yr heddlu a chyd-drefnu eu gwaith. Mae'r [swydd ddisgrifiad](#) a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet at ddibenion recriwtio Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu yn rhoi trosolwg o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

3.3 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, rydych yn gyfrifol yn bersonol am yr agweddau penodol canlynol ar etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu:

- cyhoeddi hysbysiad etholiad²
- y gweithdrefnau enwebu³
- annog cyfranogiad⁴

¹ Ar adeg cyhoeddi, roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth a'i gwnaeth yn bosibl i etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym Manceinion Fwyaf gael ei ganslo yn 2016 a'r etholiad ar gyfer maer Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, a fyddai'n dod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu yn awtomatig dros yr ardal, i'w gynnal ym mis Mai 2017.

- sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion ynglŷn â chynnwys anerchiadau etholiadol ymgeiswyr a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r anerchiadau hynny⁵
- cyfrifo pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd⁶
- datgan y canlyniad⁷

3.4 Efallai y byddwch hefyd yn gyfrifol am ddyletswyddau canlynol Swyddog Canlyniadau Lleol drwy hysbysu'r Swyddog(ion) Canlyniadau Lleol perthnasol:

- argraffu papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau
- dilysu (er nad yw hyn yn gymwys yng Nghymru na'r rhannau hynny o Loegr lle y cyfunir etholiadau. Lle mae etholiadau wedi'u cyfuno, y Swyddog Canlyniadau dros yr etholiad arall fydd yn gyfrifol am ddilysu)
- cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddau⁸

3.5 Dylai unrhyw benderfyniad i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn gael ei wneud ar gam cynnar yn y broses, ar ôl ymgynghori â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol, er mwyn sicrhau eglurder i bawb dan sylw a'i gwneud yn bosibl i gynllunio ar gyfer y gweithgareddau hyn a bwrw ymlaen â hwy fel y bo'n briodol.

3.6 Fel rhan o'ch ystyriaethau dylech ystyried nifer yr ardaloedd pleidleisio yn eich ardal heddlu a faint o weithgareddau y bydd angen i chi ymgymryd â hwy. Os penderfynwch ymgymryd ag unrhyw un o ddyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau Lleol, bydd angen i chi sicrhau bod gennych ddigon o adnoddau i'w cyflawni'n effeithiol.

3.7 Mae'n rhaid i chi wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i gynnal etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn eich ardal heddlu. Gallwch roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Canlyniadau Lleol dros unrhyw ardal pleidleisio sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr heddlu ynglŷn â chyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, gan gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol gymryd camau penodol wrth baratoi ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau a chyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth y maent wedi'i chael neu y mae ganddynt hawl i'w chael i chi. Mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gennych iddynt. Gallwch roi cyfarwyddiadau sy'n gymwys i bob Swyddog Canlyniadau Lleol, neu dim ond i un neu i rai⁹

3.8 Lle y caiff y bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall sy'n cael ei gynnal ar 5 Mai 2016, ni fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am y swyddogaethau cyfun, a fydd yn cyfyngu ar eich pŵer i roi cyfarwyddiadau.ⁱⁱ Dim ond mewn perthynas

ⁱⁱ Yn achos cyfuno â'r bleidlais mewn etholiad ar gyfer Senedd Ewrop **yn unig**, y Swyddog Canlyniadau Lleol dros etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau fydd yn cyflawni'r

â'r agweddau hynny ar etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y maent hwy, fel Swyddogion Canlyniadau Lleol, yn gyfrifol amdanynt y gallwch arfer eich pŵer i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol (yn unol â'r pwyntiau bwled o dan baragraff 3.4 uchod). Nid yw'ch pŵer i gyfarwyddo yn gymwys i'r swyddogaethau cyfun hyn y mae Swyddogion Canlyniadau eraill yn ymgymryd â hwy

3.9 Fodd bynnag, mae un eithriad a hynny mewn perthynas â dilysu cyfrifon papurau pleidleisio. Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gallwch gyfarwyddo erbyn pryd y mae'n rhaid i weithdrefnau dilysu ddechrau ac mae'n rhaid i ba Swyddog Canlyniadau bynnag sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon gydymffurfio â'ch cyfarwyddyd.¹⁰

3.10 Ceir rhagor o wybodaeth am eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, gan gynnwys canllawiau ar roi cyfarwyddiadau, ym Mhennod 4.

Rolau a chyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau eraill yn etholiadau Mai 2016

3.11 Oherwydd cyfuno etholiadau ledled Cymru ac mewn rhannau o Loegr bydd nifer o Swyddogion Canlyniadau yn gyfrifol am gyflawni elfennau penodol o etholiadau 5 Mai 2016.

Cymru

3.12 Yng Nghymru bydd etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael ei gyfuno ag etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae 60 o Aelodau Cynulliad (ACau) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru – 40 o ACau etholaethol ac 20 o ACau rhanbarthol, gyda 4 AC rhanbarthol yn cael eu hethol i gynrychioli pob un o'r 5 rhanbarth etholiadol.

Swyddog Canlyniadau Etholaethol

3.13 Mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Swyddog Canlyniadau Etholaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu'r etholiad etholaethol ac elfennau o'r etholiad rhanbarthol sy'n rhan o'u hardal etholaethol, gan gynnwys trefn cynnal y bleidlais a'r broses dilysu a chyfrif.

swyddogaethol cyfun. Lle y caiff y bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyfuno â'r bleidlais mewn unrhyw etholiad arall, y Swyddog Canlyniadau dros un o'r etholiadau eraill fydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn. Yn achos cyfuno â refferendwm cynllunio cymdogaeth a'r dreth gyngor **yn unig**, bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau Lleol a'r Swyddog Cyfrif gytuno ynglŷn â phwy fydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau cyfun.

3.14 Y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yw'r Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am etholiadau llywodraeth leol yn yr ardal honno ac fel arfer mae'n uwch swyddog yn yr awdurdod lleol ac yn annibynnol ar yr awdurdod o ran ei swyddogaethau etholiadol.

3.15 Lle y bydd etholaeth yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, penodir y Swyddog Canlyniadau Etholaethol gan Weinidogion Cymru.

3.16 Yn ogystal â bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu'r etholiad etholaethol ac elfennau o'r etholiad rhanbarthol sy'n dod o fewn ffiniau'r ardal etholaethol, ar gyfer etholiad 5 Mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd yn gyfrifol am elfennau cyfun yr etholiad¹¹, gan gynnwys:

- darparu gorsafoedd pleidleisio¹²
- penodi a hyfforddi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio¹³
- cynnal yr etholiad¹⁴
- hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio¹⁵
- cyfarpar gorsafoedd pleidleisio¹⁶
- hysbysiad gofynion cyfrinachedd gorsafoedd pleidleisio¹⁷
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n caniatáu iddynt bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi, yn hytrach na'r un a ddyrannwyd ar eu cyfer¹⁸
- yr awdurdod i orchymyn bod pobl yn gadael gorsafoedd pleidleisio¹⁹
- dilysu pob papur pleidleisio²⁰
- lle y penderfynwyd cyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post: -
y rhestr rhif cyfatebol
- anfon pleidleisiau post gan gynnwys creu copi o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post a'i farcio ar adeg anfon ☐
- agor pleidleisiau post gan gynnwys marcio datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd ar y rhestrau a dilysu'r dynodyddion personol ar y datganiadau pleidleisio drwy'r rhestrau a dilysu'r dynodyddion personol ar y datganiadau²¹

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

3.17 Mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddelio ag enwebiadau ar gyfer yr etholiad rhanbarthol ac am ddyrannu seddau rhanbarthol.

3.18 Dynodir y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol gan Weinidogion Cymru.

3.19 Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol yn bersonol am y canlynol:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholiad rhanbarthol a ymleddir gweinyddu'r broses enwebu ar gyfer y rhanbarth

- os oes angen, hysbysu SCEau yn eich rhanbarth am sut y dylid rhoi gwybod i chi am nifer y pleidleisiau a roddwyd i bleidiau cofrestredig ac ymgeiswyr unigol ar gyfer y bleidlais ranbarthol yn eich etholaeth
- cyhoeddi'r datganiad o'r unigolion a'r pleidiau a enwebwyd a'r hysbysiad etholiad ar gyfer y rhanbarth
- coladu a chyfrifo nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd unigol a phlaid wleidyddol yn yr etholiad rhanbarthol, a chyfrifo dyraniad y seddi ar gyfer yr etholiad rhanbarthol
- datgan y canlyniad rhanbarthol

Y Swyddog Canlyniadau Lleol

3.20 Mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddau, penodir Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer pob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu. Rydym ar ddeall, yng Nghymru, y bydd yr ardal bleidleisio yn cael ei diffinio fel ardal etholaeth y Cynulliad a bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd yn Swyddog Canlyniadau Lleol.

3.21 Y Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau yw'r unigolyn sy'n gweithredu fel Swyddog Canlyniadau dros etholiadau lleol yn yr ardal honno ac fel arfer bydd yn uwch swyddog yn yr awdurdod lleol.²² Lle mae etholaeth yn cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol, caiff y Swyddog Canlyniadau Etholaethol ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

3.22 Mae cyfrifoldebau personol y Swyddog Canlyniadau Lleol yn etholiadau 5 Mai 2016 yng Nghymru yn gyfyngedig i'r canlynol:

- cyfrif pleidleisiau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau (oni fydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am hyn)²³
- trosglwyddo canlyniad yr ardal bleidleisio i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu²⁴
- argraffu'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddau (oni fydd yr SCAH wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am hyn)²⁵
- rheoli proses y pleidleisiau post yn ystod etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau (ond dim ond os penderfynwyd peidio â chyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post etholiad y Cynulliad ac etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau)²⁶

Lloegr

3.23 Yn Lloegr, mae etholiadau llywodraeth leol (gan gynnwys etholiadau plwyf a maerol), a refferenda'r dreth gyngor a refferenda cynllunio cymdogaeth o bosibl, yn cael eu cynnal mewn rhannau o'r wlad ac fel y cyfryw efallai y bydd rhai ardaloedd pleidleisio neu bob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu lle y caiff y bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall neu etholiadau eraill.

Swyddog Canlyniadau Llywodraeth Leol

3.24 Y Swyddog Canlyniadau Llywodraeth leol sy'n trefnu etholiadau llywodraeth leol, sydd fel arfer yn uwch swyddog yn yr awdurdod lleol ac yn annibynnol ar yr awdurdod o ran ei swyddogaethau etholiadol.²⁷

3.25 Lle y caiff etholiadau eu cyfuno, yn ogystal â bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu etholiadau llywodraeth leol, bydd y Swyddog Canlyniadau Llywodraeth leol hefyd yn gyfrifol am yr elfennau cyfun o'r etholiad²⁸, gan gynnwys:

- darparu gorsafoedd pleidleisio
- penodi a hyfforddi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- cynnal yr etholiad
- hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- cyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- hysbysu am ofynion cyfrinachedd mewn gorsafoedd pleidleisio
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n caniatáu iddynt bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi, yn hytrach na'r un a ddyrannwyd ar eu cyfer
- yr awdurdod i orchymyn bod pobl yn gadael gorsafoedd pleidleisio
- cadarnhau pob papur pleidleisio
- lle y penderfynwyd cyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post:
 - y rhestr rhif cyfatebol
 - anfon pleidleisiau post gan gynnwys creu copi o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post a'i farcio ar adeg anfon
 - agor pleidleisiau post gan gynnwys nodi'r datganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd ar y rhestrau a chadarnhau'r dynodyddion personol ar y datganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd

3.26 Mewn refferendwm maerol a refferendwm cynllunio cymdogaeth y Swyddog Cyfrif sy'n gyfrifol am y refferendwm, sef y Swyddog Canlyniadau dros etholiadau prif ardal.²⁹

3.27 Os mai dim ond refferendwm cynllunio cymdogaeth neu refferendwm maerol ac etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n cael eu cyfuno, dylech gydgyssylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol a'r Swyddog Cyfrif yn gynnar yn ystod y broses gynllunio er mwyn trafod cyfrifoldeb am y swyddogaethau cyfun.

Swyddogion Canlyniadau Lleol

3.28 Y Swyddog Canlyniadau Lleol dros etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw'r unigolyn sy'n gweithredu fel y Swyddog Canlyniadau dros etholiadau lleol yn yr ardal honno.³⁰ Mae'n gyfrifol am drefnu etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn lleol.

3.29 Os na chaiff etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag unrhyw etholiad arall, y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn gyfrifol yn bersonol am drefn cynnal yr etholiad, anfon a derbyn papurau pleidleisio post

a dilysu a chyfrif y pleidleisiau yn eu hardal bleidleisio (oni fydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am ddilysu a chyfrif pleidleisiau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn yr ardal bleidleisio).

3.30 Lle y caiff etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag etholiad arall, y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yr un unigolyn â Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol a bydd yn gyfrifol yn bersonol am y canlynol yn eu hardal bleidleisio³¹:

- cyfrif pleidleisiau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer eich ardal bleidleisio (oni fydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am hyn)
- trosglwyddo canlyniad yr ardal bleidleisio i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu
- argraffu'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (oni fydd yr SCAH wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am hyn)
- rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (ond dim ond os penderfynwyd peidio ag anfon pleidleisiau post ar gyfer yr etholiadau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu gyda'i gilydd)

Swyddog Cofrestru Etholiadol

3.31 Y Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr o etholwyr a rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fel arfer yn uwch swyddog yn yr awdurdod lleol a gall hefyd gyflawni rôl y Swyddog Canlyniadau.

4 Eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu



Deall Eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu

- Ystyriwch sut y byddwch yn sicrhau cysondeb drwy'r ardal heddlu gyfan a sut y byddwch yn monitro'r ffordd y cynhelir etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu drwy'r ardal heddlu gyfan.
- Sicrhewch fod unrhyw gyfarwyddiadau a rowch yn gydnaws â'n canllawiau a'n fframwaith safonau perfformiad. Os oes amheuaeth, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod y mater.
- Rhewch gynllun cyfathrebu ar waith ar gyfer rhoi gwybod unrhyw gyfarwyddiadau.
- Mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol, penderfynwch a fyddwch yn cadw'r cyfrifoldeb am argraffu papur pleidleisio etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a chyfrif pleidleisiau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu eich hun. Lle na chaiff etholiadau eu cyfuno, gallwch hefyd gadw'r cyfrifoldeb am ddilysu papurau pleidleisio eich hun.
- Ystyriwch sut y byddwch yn penodi dirprwyon, gan gynnwys y nifer sydd ei angen ac at ba ddibenion y byddwch yn eu penodi.
- Rhewch weithdrefn ar waith ar gyfer cywiro gwallau gweithdrefnol, gan gynnwys y rhai a wneir gan Swyddogion Canlyniadau Lleol.
- Sicrhewch fod gennych yswiriant priodol ar waith.
- Sicrhewch eich bod yn deall eich swyddogaethau statudol yn glir ac yn gyfarwydd yn ymarferol â'r ddeddfwriaeth.
- Sicrhewch eich bod yn deall yr heriau yn eich ardal heddlu (gweler hefyd Pennod 2).
- Rhewch brotocol cyfrif ar waith ar gyfer trosglwyddo cyfansymiau dilysu a chyfrif lleol.

4.1 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, chi sy'n gyfrifol am drefn cynnal etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gyffredinol ar gyfer ardal yr heddlu lle y cawsoch eich penodi.

4.2 Yn ogystal â'ch dyletswyddau cyfreithiol fel y'u hamlinellwyd yn y bennod flaenorol, rydych hefyd yn gyfrifol am roi arweiniad a chyd-drefnu gwaith Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn sicrhau y caiff yr etholiad ei drefnu'n dda a bod pleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad yn cael gwasanaeth o safon gyson uchel drwy'r ardal heddlu gyfan.

Cyfrifoldeb personol

4.3 Chi sy'n atebol yn bersonol am drefn cynnal etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n ymwneud â'ch rôl a'ch dyletswyddau. Lle y caiff etholiadau eu cyfuno rydych yn atebol yn bersonol am y swyddogaethau sy'n dod i'ch rhan fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

4.4 Gallwch benodi un neu fwy o ddirprwyon i'ch helpu i gynnal yr etholiad, a dylech gymryd camu i roi'r trefniadau a nodwyd gennych fel rhai priodol ar waith yn gynnar yn ystod y broses.³² Dylech sicrhau eich bod yn penodi un neu fwy o ddirprwyon i ysgwyddo'ch rôl os na allwch weithredu'n bersonol fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu. Dylech sicrhau bod unrhyw ddirprwyon a benodir yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddynt. Mae'n rhaid i benodiad unrhyw ddirprwy gennych fod yn ysgrifenedig a dylech gynnwys manylion y swyddogaethau y mae'r dirprwy wedi'i awdurdodi i'w harfer ar eich rhan.³³ Dylai'r dirprwy dderbyn y penodiad yn ysgrifenedig hefyd.

4.5 Er y gallwch benodi un neu fwy o ddirprwyon i gyflawni unrhyw un neu bob un o'ch swyddogaethau, ni allwch ddirprwyo'ch cyfrifoldeb personol am drefn cynnal yr etholiad nac unrhyw agweddau arno yr ydych yn gyfrifol am eu cyflawni.

4.6 Rydych hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau tor-dyletswydd swyddogol. Mae hyn yn golygu os byddwch chi neu'ch dirprwyon penodedig yn euog o unrhyw weithred neu anweithred sy'n torri dyletswydd swyddogol, heb achos rhesymol, rydych chi (a/neu hwy) yn agored i dalu dirwy anghyfyngedig os cewch eich collfarnu'n ddiannod.³⁴

4.7 Mae gennych y pŵer i gymryd y cyfryw gamau ag sy'n briodol yn eich barn chi i unioni gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau'r etholiadau ac nad ydynt yn unol â'r rheolau.³⁵

4.8 Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i chi gywiro gwallau gweithdrefnol rydych chi, fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, neu Swyddog Canlyniadau Lleol, Swyddog Llywyddu neu berson sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i chi (neu ddirprwyon unrhyw un o'r rhain) yn eu gwneud. Mae gan Swyddogion Canlyniadau Lleol yr un pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnau a dylech sicrhau eu bod yn ymgynghori â chi cyn arfer y pŵer hwn.

4.9 Lle rydych chi neu Swyddog Canlyniadau Lleol yn defnyddio'r pŵer hwn i gywiro gwallau gweithdrefnol ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu, dylech sicrhau bod y gwall a'r cam unioni a gymerwyd yn cael eu hesbonio i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys pleidleiswyr ac ymgeiswyr ac asiantau, lle y bo'n gymwys. Dylech sicrhau eich bod cadw cofnod o'r canlynol:

- unrhyw wallau a nodwyd gan gynnwys beth oedd y gwall a sut y digwyddodd

- effaith y gwall
- unrhyw gyngor a gawsoch chi neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol)
- pa gamau a gymerwyd i gywiro'r gwall, a sut y rhoddwyd gwybod am y rhain

4.10 Lle rydych yn unioni gweithred neu anweithred yn llawn drwy ddefnyddio'r pŵer hwn, ni fyddwch yn euog o drosedd o dorri dyletswydd swyddogol.³⁶ Dylech gofio nad yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn ei gwneud yn bosibl i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan.

Yswiriant ac indemniad

4.11 Dylech sicrhau bod gennych yswiriant priodol.

4.12 Bydd Swyddfa'r Cabinet yn indemnio rhag hawliadau nas yswiriwyd sy'n deillio o'r ffordd rydych yn cyflawni'ch dyletswyddau a chewch ragor o wybodaeth gan y swyddfa maes o law. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd unrhyw her i'r etholiad a hawliad yn erbyn yw yswiriant hwn.

Eich sgiliau a'ch gwybodaeth

4.13 Dylech feddu ar wybodaeth ymarferol am y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n llywodraethu trefn cynnal yr etholiad. Golyga hyn, yn ogystal â dealltwriaeth glir o'ch swyddogaethau statudol, y dylech fod gennych drosolwg o'r hyn sydd yn y ddeddfwriaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae'n effeithio ar weinyddu'r etholiad, fel y gallwch adolygu'r broses gyfan yn ardal yr heddlu, codi cwestiynau yn ei chylch, lle y bo angen, a sicrhau ei hansawdd.

4.14 Mae cyfrifoldebau rheoli ynghlwm wrth eich rôl. Er enghraifft, dylech:

- roi arweinyddiaeth i Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu, a ddylai gael ei hategu gan gyngor, canllawiau a hyfforddiant yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau y gellir trefnu'r etholiad yn dda a bod pleidleiswyr yn cael gwasanaeth o safon uchel lle bynnag maent yn pleidleisio
- cydgysylltu a gweinyddu'r gwaith o gynllunio'r etholiad ar lefel ardal yr heddlu, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau a safonau perfformiad y Comisiwn Etholiadol
- cymryd yr holl gamau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen arnoch er mwyn cyflawni'ch rôl, fel y mae'n rhaid iddo ei wneud o dan y gyfraith
- gorchwyllo'r gwaith cynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg ar gyfer yr etholiad ar lefel ardal yr heddlu
- rhoi canllawiau a chymorth i Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth baratoi a chynnal cynllun prosiect a dull rheoli risg priodol ar gyfer yr etholiad

- sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol y cynlluniau a'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gynnal yr etholiad yn eu hardal bleidleisio
- rhoi arweiniad a chymorth i'ch staff, monitro cynnydd a chael adborth rheolaidd ar weithgareddau
- helpu Swyddogion Canlyniadau Lleol i weinyddu'r etholiad a goruchwyllo eu gwaith mewn modd priodol
- monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol a nodi a goruchwyllo unrhyw gamau sydd eu hangen i liniaru unrhyw faterion sy'n codi
- sicrhau bod eich staff, a Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff hwythau, yn cael hyfforddiant priodol i gyflawni'r rolau y mae angen iddynt eu cyflawni
- sicrhau bod cyfrifon etholiadau yn cael eu cwblhau'n amserol
- cynnal cydberthynas waith effeithiol â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu

Safonau perfformiad

4.15 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn pennu safonau ac yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau.³⁷ Mae'r safonau perfformiad sy'n gymwys i etholiadau mis Mai 2016 ar gael yn [Atodiad A](#) – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau.

4.16 Cafodd y fframwaith ei ddatblygu ar sail y canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad, ac yn benodol a yw Swyddogion Canlyniadau yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Gall pleidleiswyr bleidleisio'n hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais eu cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i gymryd rhan, beth yw'r rheolau, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheolau hyn, ac y gallant fod yn ffyddiog yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

4.17 Mae'r fframwaith yn cynnwys safon sy'n ymdrin yn benodol â rôl deiliaid swydd statudol sydd â phŵer cyfarwyddo, megis Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu, ac yn canolbwyntio ar y gwaith o gydgyssylltu a rheoli'r etholiad. Mae elfennau o safonau perfformiad 1 a 2 – sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y ffordd y cynllunnir ar gyfer yr etholiad a'r ffordd y'i cynhelir yn galluogi pleidleiswyr i bleidleisio'n hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt ac yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i gymryd rhan, beth yw'r rheolau, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheolau hyn fel y gallant fod yn ffyddiog yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli – hefyd yn gymwys i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu. Drwy'r canllawiau hyn i gyd rydym wedi amlygu'r hyn y disgwyliwn y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn gallu bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol y safonau.

4.18 Bydd canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Canlyniadau eraill yn etholiadau Mai 2016 yn nodi'r hyn y bydd angen iddynt ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol y safonau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau. Dylai'r fframwaith safonau perfformiad a'r canllawiau roi arwydd da i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu o'r hyn y dylent fod yn ei ddisgwyl gan Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eu hardal heddlu, er mwyn llywio eu gwaith o fonitro a chynorthwyo Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eu hardal, y bydd timau'r Comisiwn yn eu helpu i'w wneud ac yr ymdrinnir ag ef yn fanylach isod.

Rheoli a chydgysylltu'r etholiad

4.19 Wrth benderfynu ar y ffordd y byddwch yn rheoli etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn eich ardal heddlu, bydd angen i chi gadarnhau faint o etholiadau a fydd yn cael eu cyfuno yn eich ardal yn gyntaf. Bydd angen i chi weithio'n agos gyda'r Swyddogion Canlyniadau eraill yn ardal yr heddlu er mwyn sicrhau eich bod yn deall y cyd-destun a'r heriau ym mhob rhan o'ch ardal yn llawn. Bydd yn bwysig cytuno ar ragdybiaethau cynllunio ar gam cynnar, gan gydnabod y bydd angen i'r rhain gael eu hadolygu drwy'r amser er mwyn ymateb yn briodol pe bai amgylchiadau'n newid.

4.20 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth a phrofiad lleol ac nad oes 'un ateb i bawb' y gellir ei gymhwyso at bob ardal heddlu, neu hyd yn oed o fewn ardal heddlu. Bydd gan bob ardal heddlu ei hamgylchiadau ei hun a fydd yn dylanwadu ar eich penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau profiad cyson, o safon uchel i'r rhai sy'n pleidleisio ac yn sefyll etholiad drwy ardal yr heddlu.

4.21 Mae etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn un etholiad a gynhelir mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol. Felly, dylech ystyried ar gam cynnar sut y byddwch yn sicrhau y caiff yr etholiad ei weinyddu i safon gyson drwy'r ardal heddlu gyfan, fel y bydd pleidleiswyr yn cael gwasanaeth gyson uchel ble bynnag y maent yn byw ac fel y bydd yr etholiad yn arwain at ganlyniad a dderbynnir, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr amcanion a'r mesurau o lwyddiant a nodir yn eich cynllun prosiect.

4.22 Bydd agweddau ar y broses etholiadol lle y byddwch yn awyddus iawn i sicrhau cysondeb, yn enwedig yn y meysydd sy'n effeithio ar brofiad y pleidleiswyr – er enghraifft, anfon cardiau pleidleisio a phleidleisiau post, a staffio gorsafoedd pleidleisio – a hefyd mewn perthynas â dilysu a chyfrif pleidleisiau.

4.23 Mae amrywiol adnoddau ar gael i chi er mwyn sicrhau cysondeb. Chi sy'n penderfynu, yn seiliedig ar ffactorau megis eich gwybodaeth, eich profiad a'ch cydberthnasau â'r Swyddogion Canlyniadau yn eich ardal, a chan ystyried materion cwmpas a graddfa, y ffordd orau o gyflawni'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun etholiadol. Mae'ch pŵer i gyfarwyddo yn un adnodd sydd ar gael i chi ei ddefnyddio, ond chi sy'n penderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddiadau, ar ba faterion, ac i bwy.

4.24 Lle y caiff etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag etholiad arall ni fydd modd defnyddio'r pŵer cyfarwyddo bob amser ar gyfer rhai agweddau ar y broses, yn dibynnu ar ba Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol amdanynt yn ymarferol, felly bydd adnoddau eraill i sicrhau cysondeb – megis cydweithredu ac ymgynghori – yn hollbwysig.

4.25 Dylai eich cynllun prosiect adlewyrchu sut a phryd y byddwch yn penderfynu ar y ffordd y byddwch yn rheoli ac yn chydgysylltu'r etholiad yn eich ardal heddlu a sut y byddwch yn rhoi hyn ar waith yn ymarferol. Dylai hefyd gynnwys strategaeth gyfathrebu er mwyn ategu'r gwaith hwn.

4.26 Dylech o leiaf roi prosesau ar waith ar gyfer monitro'r ffordd y cynhelir etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu drwy ardal yr heddlu, gan gynnwys cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfarwyddiadau a/neu ganllawiau a roddwyd gennych a safonau perfformiad y Comisiwn. Dylech feddwl am y ffordd y byddwch yn helpu Swyddogion Canlyniadau eraill a gweinyddwyr etholiadol yn yr ardal i reoli'r etholiadau ac unrhyw faterion sy'n codi.

4.27 Bydd timau'r Comisiwn ledled Cymru a Lloegr ar gael i'ch cynorthwyo drwy gydol etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Caiff manylion pellach am ein cynlluniau i gynorthwyo a monitro yn ystod etholiadau Mai 2016 eu cynnwys mewn bwletin yn y dyfodol, a fydd ar gael erbyn diwedd mis Tachwedd 2015 fan bellaf.

4.28 Cewch ddewis rhoi canllawiau ysgrifenedig i Swyddogion Canlyniadau Lleol ar agweddau penodol ar yr etholiad. Er mwyn rheoli'r broses o goladu'r canlyniad yn effeithiol, dylech roi protocol ar waith ar gyfer trosglwyddo a derbyn cyfansymiau dilysu a chyfrif lleol.

4.29 At hynny, dylech drefnu hyfforddiant a/neu sesiynau briffio i Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff.



Er mwyn cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 3](#), bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff yr etholiad ei gynnal mewn ffordd gyson.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r ffordd rydych yn bwriadu sicrhau cysondeb, gan gynnwys a ydych wedi rhoi (neu'n bwriadu rhoi) canllawiau, ac a ydych wedi defnyddio (neu'n bwriadu defnyddio) eich pŵer i roi cyfarwyddiadau a sut rydych wedi gwneud hynny.

4.30 Fel rhan o'ch proses gynllunio dylech nodi pa gyfarwyddiadau rydych yn bwriadu eu rhoi i Swyddogion Canlyniadau Lleol, ond wrth gwrs efallai y bydd materion yn codi'n ddiweddarach lle y bydd yn ddymunol neu'n angenrheidiol i chi roi cyfarwyddiadau ar fyr rybudd. Pe baech yn penderfynu ei bod yn briodol defnyddio cyfarwyddiadau, dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynlluniau penodol ar gyfer datblygu a rhoi cyfarwyddiadau a strategaeth gyfathrebu i ategu'r broses hon.

4.31 Os ydych yn ystyried rhoi cyfarwyddiadau neu ganllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol dylech ystyried unrhyw feini prawf perthnasol yn fframwaith safonau perfformiad a/neu ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol. Mae fframwaith safonau perfformiad a chanllawiau'r Comisiwn yn adlewyrchu'r hyn rydym ni a Bwrdd Cynghori Etholiadol y DU wedi cytuno y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau a chynnal etholiadau wedi'u trefnu'n dda. Dylai'r cytundeb hwn, ynghyd â'r hyblygrwydd o ran y ffordd y cyflawnir y safonau, leihau'r risg bosibl o wrthdaro rhwng meini prawf y safonau ac unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau a roddir gan Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu.

4.32 Fodd bynnag, er mwyn i Swyddogion Canlyniadau Lleol fod yn glir ynghylch beth yn union a ddisgwyli'r ganddynt, os ydych yn bwriadu rhoi

unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau sy'n wahanol neu'n groes i feini prawf y safonau, a wnewch chi gysylltu â swyddfa leol y Comisiwn yn y lle cyntaf er mwyn trafod y goblygiadau fel y gallwn osgoi hyd y gellir sefyllfa lle y gosodir gofynion croes ar Swyddogion Canlyniadau Lleol nad ydynt wedi'u datrys.

4.33 Wrth benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd ar agwedd benodol ar yr etholiad, a pha gyfarwyddyd y dylid ei roi, dylech anelu at ymgynghori â'ch Swyddogion Canlyniadau Lleol lle y bo modd, er mwyn i chi ystyried unrhyw ffactorau lleol perthnasol wrth wneud eich penderfyniadau. Dylai'r ymgynghoriad hwn helpu i leihau'r risg o oblygiadau nas bwriadwyd i unrhyw gyfarwyddiadau a sicrhau gallu Swyddogion Canlyniadau Lleol i gydymffurfio â hwy i'r eithaf.

4.34 Yn benodol, wrth benderfynu ar unrhyw gyfarwyddiadau posibl rydych yn bwriadu eu rhoi, dylech sicrhau eich bod wedi ystyried ac wedi ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau eraill ynghylch a fydd y cyfarwyddyd yn gymwys mewn ardaloedd lle y cyfunir etholiadau a sut y dylai fod yn gymwys.

4.35 Dylid cynllunio unrhyw ymgynghoriad ar gyfarwyddyd gael ei gynllunio ar gyfer a'u gwblhau mewn da bryd i alluogi cyfathrebu eich penderfyniad ac unrhyw gyfarwyddyd cysylltiedig yn brydlon ac amserol i Swyddogion Canlyniadau Lleol, i'w galluogi i gynllunio a pharatoi at yr etholiad yn unol â hyn.

4.36 Os penderfynwch arfer eich pŵer i gyfarwyddo, dylech wneud hynny gan ystyried yr egwyddorion a'r nodau canlynol:

- ymddiriedaeth: dylai fod modd i bobl ymddiried yn y ffordd y mae ein hetholiadau yn gweithio
- cyfranogi: dylai fod yn syml i bobl gyfranogi yn ein hetholiadau (boed hynny fel ymgyrchwyr, ymgeiswyr neu bleidleiswyr) a dylai pobl fod yn ffyddiog bod eu pleidlais yn cyfrif
- cysondeb drwy'r ardal heddlu gyfan
- tryloywder
- proffesiynoldeb
- canlyniadau cywir y gall pobl ymddiried ynddynt

4.37 Dylech hysbysu Swyddogion Canlyniadau Lleol am unrhyw gyfarwyddiadau cyn gynted â phosibl, ac yn enwedig unrhyw gyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau paratoi penodol. Dylech gadw cofnod o'r cyfarwyddiadau a roddwyd, pryd, ac i bwy.

4.38 Dylai eich cynlluniau ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau ystyried y ffaith y gall amgylchiadau godi lle na all Swyddogion Canlyniadau Lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd, am ba reswm bynnag y bo. Felly dylech sicrhau eich bod yn datblygu cynlluniau i ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn, a all gynnwys sefydlu proses o ystyried ceisiadau i eithrio rhag eich cyfarwyddiadau Dylech gadw cofnod o unrhyw enghreifftiau lle rydych wedi cytuno y gall Swyddogion Canlyniadau Lleol wro oddi wrth gyfarwyddyd.

Byddwn yn gofyn i chi nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddefnydd o'ch pŵer i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cynllunio etholiad. Rhoddir rhagor o fanylion yn [Atodiad A](#).

5 Gwaith cynllunio a threfnu



Paratowch gynllun prosiect a chofrestr risg, gan drin y ddwy yn 'ddogfennau byw' a'u defnyddio i fonitro cynnydd a rheoli risgiau

- Nodwch yr hyn rydych am ei gyflawni, a sut beth fydd llwyddiant.
- Gwerthuswch brosesau cynllunio a chyflawni etholiadau blaenorol, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, a defnyddiwch eich canfyddiadau i fwydo i mewn i'ch gwaith cynllunio.
- Sicrhewch fod eich cynllun yn cwmpasu trefniadau cynllunio wrth gefn a pharhad busnes.
- Cydgysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol a gofyn am eu sylwadau wrth ddatblygu'ch cofrestr risg a sicrhewch eu bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau a nodir gennych, yn ogystal ag unrhyw gamau lliniaru. Sicrhewch y caiff unrhyw gamau lliniaru eu cymryd.
- Sefydlwch dîm prosiect.
- Lluniwch gynllun cyfathrebu i sicrhau cysondeb wrth gynnal yr etholiad yn ardal yr heddlu.
- Lluniwch amserlen o gyfarfodydd rheolaidd â Swyddogion Canlyniadau Lleol.
- Sicrhewch fod cynlluniau'n ymdrin â'r ffordd y byddwch yn cydgysylltu unrhyw weithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy'r ardal heddlu gyfan. Lluniwch rwydwaith cyfathrebu sy'n cynnwys cynrychiolydd i bob Swyddog Canlyniadau Lleol er mwyn helpu i rannu gwybodaeth a chydgyssylltu gweithgarwch.
- Sicrhewch fod ymgyrch genedlaethol y Comisiwn yn rhan o'ch cynlluniau a cheisiwch gydgysylltu gweithgarwch yn eich ardal â gweithgarwch cenedlaethol lle y bo modd.
- Sicrhewch fod cyfathrebu â rhanddeiliaid wedi'i ymgorffori drwy gydol eich proses gynllunio, gyda threfniadau penodol ar waith i weithio gyda'r cyfryngau.

5.1 Amcan allweddol rhoi prosesau prosiect a rheoli risg ar waith yw sicrhau bod paratodau digonol wedi'u gwneud cyn yr etholiad, gyda risgiau wedi'u nodi ac wedi'u rheoli'n briodol, fel y gellir cynnal yr etholiad mewn ffordd effeithiol. Dylech nodi ar gam cynnar yr hyn rydych am ei gyflawni a sut beth fydd llwyddiant i chi, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr amcanion a'r mesurau o lwyddiant a nodir yn eich cynllun prosiect. Dylech weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn datblygu'r amcanion a'r mesurau o lwyddiant hyn a sicrhau eu bod hefyd yn adlewyrchu'r rhain yn eu cynlluniau eu hunain.

Cynllun prosiect

5.2 Dylech baratoi cynllun prosiect mewn perthynas â'ch swyddogaethau fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, ei drin yn 'ddogfen fyw' a'i adolygu'n rheolaidd a'i ddefnyddio i fonitro cynnydd. Cewch ddewis integreiddio rhai

agweddau neu bob agwedd ar hyn yn eich dogfennaeth ehangach ar gynllunio etholiadau Mai 2016. Pa opsiwn bynnag a ddewiswch, dylech sicrhau bod eich gwaith cynllunio'n yn cefnogi'r broses o sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Gall pleidleiswyr bleidleisio'n hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais eu cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i gymryd rhan, beth yw'r rheolau, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheolau hyn, ac y gallant fod yn ffyddiog yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 3](#), bydd angen i chi ddatblygu prosesau rheoli prosiect cadarn a'u rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys gwerthuso gwaith cynllunio etholiadau blaenorol a'r ffordd y cawsant eu cynnal a nodi gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddarau cynlluniau yn ôl yr angen. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi dogfennaeth cynllunio prosiect ar waith a'i hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn nodi'r hyn y dylai'r ddogfennaeth cynllunio prosiect hon ei gwmpasu.

Mae'r Comisiwn wedi paratoi templed ar gyfer cynllun prosiect y gallwch ei ddefnyddio o bosibl a'i addasu yn ôl eich amgylchiadau lleol. Mae'r templed yn cynnwys nifer o enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni a thasgau gan gynnwys pob un o'r rhai y dylid eu cynnwys er mwyn gallu dangos bod modd sicrhau'r canlyniadau a nodwyd yn y safonau perfformiad. Yn ogystal â'r hyn a nodwyd yn y templed dylech hefyd ychwanegu unrhyw bethau y gellir eu cyflawni a thasgau eraill y byddwch yn nodi eu bod yn angenrheidiol, gan gynnwys rhai sy'n benodol ar gyfer amgylchiadau'ch rhanbarth etholiadol.

5.3 Cyn dechrau ar eich gwaith cynllunio manwl, dylech nodi'r hyn rydych am ei gyflawni a sut beth fydd llwyddiant. Mae'r Comisiwn wedi cynnig rhai nodau enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal yr etholiad wedi bod yn llwyddiannus fel rhan o dempled y cynllun prosiect.

5.4 Os nad ydych eisoes wedi gwneud hyn, dylech werthuso gwaith cynllunio etholiadau blaenorol a'r ffordd y cawsant eu cynnal a nodi'r hyn a fu'n gweithio'n dda a'r hyn na fu'n gweithio'n dda, a defnyddio'r canfyddiadau hyn er mwyn llywio'ch gwaith cynllunio. Yn benodol, dylech nodi unrhyw wersi a ddysgwyd o etholiadau tebyg blaenorol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys agwedd rheoli rhanbarthol – etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau 2012 ac Etholiadau Senedd Ewrop yn 2014 – a ddylai helpu i lywio'ch gwaith cynllunio. Os nad ydych wedi gweithio fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu nac wedi cynnal unrhyw etholiad sy'n cynnwys elfen o gydgyssylltu rhanbarthol o'r blaen, dylech ystyried sut y gallwch ddysgu o brofiad pobl eraill sydd wedi ymgymryd â'r rôl hon. Hyd yn oed os ydych wedi gweithio fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu o'r blaen, efallai y bydd yn fuddiol ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd nid yn unig yn eich ardal chi, ond mewn ardaloedd heddlu eraill.

5.5 Dylai eich cynllun prosiect ar gyfer yr etholiad hefyd gynnwys cynllun i werthuso gweithdrefnau ôl-etholiadol a nodi gwersi a ddysgwyd.

5.6 Dylai eich cynllun prosiect gwmpasu trefniadau cynllunio wrth gefn a pharhad busnes. Dylai'r trefniadau parhad gynnwys darpariaethau ar gyfer colli staff a cholli lleoliadau yn ystod cyfnod yr etholiad.

5.7 At hynny, dylai eich cynllun prosiect nodi'r adnoddau a'r staffio sydd eu hangen. Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i chi er mwyn eich galluogi i gyflawni'ch swyddogaethau.

5.8 Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi amserlenni ar gyfer etholiadau Mai 2016 – ar gyfer [etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn unig](#), ar gyfer [etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac etholiad llywodraeth leol wedi'u cyfuno](#) ac ar gyfer [etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau Heddlu a Throseddau wedi'u cyfuno](#). Mae'r amserlenni yn cynnwys terfynau amser statudol fel y'u nodwyd yn y rheolau etholiadol y gellir eu defnyddio i'ch helpu gyda'ch gwaith cynllunio.

Cofrestr risg

5.9 Dylech baratoi cofrestr risg, ei thrin yn 'ddogfen fyw' a'i hadolygu'n rheolaidd, gan ei defnyddio i fonitro'r risgiau a dogfennu unrhyw newidiadau mewn risg, yn ogystal â sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu nodi a'u cymryd, gan gynnwys gan Swyddogion Canlyniadau Lleol fel y bo'n briodol. Dylai eich cofrestr risg ystyried risg a rheoli risg mewn perthynas â'ch swyddogaethau fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, ynghyd ag unrhyw risgiau allweddol sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu'r etholiad drwy'r ardal heddlu gyfan. Dylid nodi difrifoldeb unrhyw risg gan nodi'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg pe bai'n digwydd.

5.10 Wrth ddatblygu'ch cofrestr risg, dylech sicrhau eich bod yn cydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol a gofyn am eu sylwadau fel y bo angen, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau a nodwyd gennych a all effeithio'n uniongyrchol ar yr etholiad yn eu hardal bleidleisio, yn ogystal ag unrhyw gamau lliniaru y maent yn gyfrifol amdanynt.

5.11 Mae'r Comisiwn wedi datblygu [templed ar gyfer cofrestr risg](#) y gallwch ei ddefnyddio o bosibl. Mae'r templed yn rhoi rhai risgiau enghreifftiol ac awgrymiadau ar gyfer lliniaru'r risgiau hynny. Yn ogystal â'r risgiau a nodir yn y templed, dylech hefyd nodi unrhyw risgiau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i'ch ardal heddlu, a sut y byddech yn eu lliniaru.

Staffio

5.12 Dylech sefydlu tîm prosiect er mwyn eich helpu i gyflawni'ch swyddogaethau fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu. Dylai'r tîm prosiect gynnwys y staff allweddol perthnasol i'ch helpu ym mhob swyddogaeth

benodol, gan gynnwys annog a chydgysylltu cyfranogiad yn yr etholiad drwy'r ardal heddlu gyfan a sicrhau bod anerchiadau etholiadol ymgeiswyr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

5.13 Ar wahân i chi, dylai eich tîm prosiect gynnwys:

- Swyddogion Canlyniadau eraill yn ardal yr heddlu
- unrhyw ddirprwyon a benodir
- aelodau eraill o staff etholiadol
- unrhyw bersonél allweddol eraill sy'n briodol, yn eich barn chi

5.14 Dylai fod gan y tîm prosiect gylch gwaith clir a dealltwriaeth o'r tasgau i'w cynnal. Ar y cam cynllunio, dylid paratoi amserlen o gyfarfodydd, a dylid cadw cofnod o bob cyfarfod fel trywydd archwilio o'r hyn a drafodwyd ac o unrhyw benderfyniadau a wnaed.

Cyfathrebu

5.15 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu bydd angen i chi roi cynlluniau cyfathrebu ar waith er mwyn helpu i gynnal yr etholiad. Dylai'r cynlluniau hyn eich helpu i gydgyssylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol a chyd-drefnu eu gwaith yn effeithiol er mwyn sicrhau y caiff yr etholiad ei gynnal mewn ffordd gyson drwy'r ardal heddlu gyfan, ac i reoli'r broses o gydgyssylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cysylltu â'r cyfryngau.

5.16 Wrth ddatblygu'ch cynlluniau cyfathrebu dylech nodi a dogfennu sut y byddwch yn cyfathrebu mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y ffordd y byddwch yn rheoli ac yn cydgysylltu'r etholiad, gan gynnwys y canlynol:

- ymgynghori ynglŷn â chanllawiau a chyfarwyddiadau a rhoi canllawiau, a chyfarwyddiadau lle y bo'n briodol
- lledaenu gwybodaeth
- monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol
- cyfleu'ch cynlluniau ar gyfer y prosesau rydych yn gyfrifol amdanynt, yn enwedig enwebiadau a choladu'r canlyniad
- cydgysylltu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- rhoi cyngor a chymorth i Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff, ac ymdrin ag ymholiadau ganddynt

5.17 Dylech lunio amserlen o gyfarfodydd rheolaidd â Swyddogion Canlyniadau Lleol o bob rhan o ardal yr heddlu er mwyn trafod opsiynau a materion, gyda'r nod o gael consensws, lle y bo modd, ynglŷn â'r penderfyniadau y mae angen i chi eu gwneud er mwyn cynnal yr etholiad a chyflawni'r amcanion a'r mesurau o lwyddiant a nodwyd. Dylid cadw cofnod o bob cyfarfod fel trywydd archwilio o'r hyn a drafodwyd ac o unrhyw benderfyniadau a wnaed.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 3](#), bydd angen i chi ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u rhoi ar waith. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol ar waith.

Codi ymwybyddiaeth

5.18 Mae'n rhaid i chi gymryd y cyfryw gamau ag sy'n briodol, yn eich barn chi, i annog etholwyr i gymryd rhan yn yr etholiad, ac wrth ymgymryd â'r cyfryw weithgarwch mae'n rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan y Comisiwn Etholiadol.³⁸ Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, dylech fynd ati i arwain y gwaith o hyrwyddo a rhannu arfer da a chydgyssylltu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth drwy'r ardal heddlu gyfan.

5.19 Dylai eich gwaith cynllunio ystyried yr angen i weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn sicrhau bod gweithgarwch codi ymwybyddiaeth yn lleol a thrwy'r ardal heddlu gyfan wedi'i gydgyssylltu a bod negeseuon clir a chyson yn cael eu cyfleu'n effeithiol i etholwyr.

5.20 Wrth baratoi strategaeth codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i'ch ardal heddlu, dylech ddogfennu'r canlynol:

- nodi'ch cynulleidfa darged
- amcanion a mesurau o lwyddiant y gweithgarwch
- risgiau – eu nodi a'u lliniaru
- adnoddau – ariannol a staffio

5.21 Dylai'r ffordd rydych yn bwriadu rhoi'ch strategaeth ar waith gael ei chynnwys yn eich cynllun prosiect cyffredinol.

5.22 Dylech lunio rhwydwaith cyfathrebu sy'n cynnwys cynrychiolydd i bob Swyddog Canlyniadau Lleol yn eich ardal heddlu er mwyn rhannu gwybodaeth a chydgyssylltu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy'r ardal heddlu gyfan. Gall y rhwydwaith hwn hefyd gael ei ddefnyddio i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw wybodaeth ynglŷn ag agweddau penodol ar yr etholiad, megis dilysu a chyfrif pleidleisiau neu ddatgan canlyniadau, neu faterion sy'n codi, er enghraifft honiadau o dwyll etholiadol, mewn ffordd effeithiol a chyson drwy'r ardal heddlu gyfan.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 3](#), bydd angen i chi ddatblygu strategaeth ar gyfer cydgyssylltu a chyflawni gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal heddlu gyfan a'u rhoi ar waith. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi strategaeth ar waith ar gyfer cydgyssylltu a chyflawni gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy ardal heddlu gyfan.

Gwybodaeth i etholwyr

5.23 Er mwyn cyfleu gwybodaeth i etholwyr yn effeithiol dylech ystyried pwy rydych am ei gyrraedd drwy'ch gweithgarwch codi ymwybyddiaeth a'r dull cyfathrebu i'w ddefnyddio. Dylech ofyn am gyngor staff perthnasol yn eich awdurdod lleol a cheisio eu barn. Dylech hefyd ystyried yr ymgyrch gofrestru genedlaethol a gynhelir gan y Comisiwn Etholiadol a cheisio cydgysylltu gweithgarwch yn eich ardal â'r gweithgarwch cenedlaethol fel y bo'n briodol.

5.24 Mae 'gwybodaeth' yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar etholwyr er mwyn cymryd rhan yn llwyddiannus. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- yr etholiad ei hun neu'r etholiadau eu hunain
- dyddiad ac oriau'r etholiad
- lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- unrhyw derfynau amser allweddol (e.e. terfynau amser ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ac am bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy)
- sut i bleidleisio (h.y. sut i farcio'r papur(au) pleidleisio)
- pa gymorth sydd ar gael i etholwyr (e.e. gwybodaeth i bleidleiswyr anabl)
- sut a phryd y caiff pleidleisiau eu cyfrif
- sut y caiff y canlyniad ei gyhoeddi

5.25 Dylech sicrhau bod yr holl ohebiaeth a anfonir yn cynnwys manylion cyswllt priodol fel y gall unrhyw un ymateb a chael rhagor o wybodaeth. Dylech ystyried y manylion cyswllt mwyaf perthnasol ym mhob achos, gan weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff yn ôl yr angen.

5.26 Efallai y bydd y cyhoedd yn gwneud ymholiadau hefyd a bydd angen i chi ystyried sut y gellir ymdrin ag ymholiadau o'r fath mewn ffordd gyson. Gallech, er enghraifft, ystyried datblygu ymatebion y cytunwyd arnynt i gwestiynau cyffredin i staff rheng flaen.



Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu templedi ac adnoddau ar ein gwefan i'ch helpu i ddarparu gwybodaeth am etholiadau. Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â'r hyn a fydd ar gael gennym a phryd mewn Bwletin yn y dyfodol.

Mae tudalen cwestiynau cyffredin ar [Fy Mhleidlais I](#) hefyd, a fydd yn cynnwys cwestiynau cyffredin ynglŷn â'r etholiadau ac y dylid cyfeirio pobl ati, er enghraifft, drwy roi dolen o'ch tudalennau gwe i wefan [Fy Mhleidlais I](#).

Cysylltu â'r cyfryngau

5.27 Dylech sicrhau bod cydgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid wedi'i ymgorffori drwy gydol eich proses gynllunio, gyda threfniadau penodol ar waith i weithio gyda'r cyfryngau, gan gynnwys:

- cynlluniau ar gyfer cydgysylltu gweithgarwch cysylltu â'r cyfryngau o fewn ardal yr heddlu, a strategaethau ar gyfer ymdrin â chyfathrebu rhagweithiol a hefyd gysylltu â'r cyfryngau mewn perthynas â digwyddiadau penodol megis dilysu a chyfrif pleidleisiau a datgan y canlyniad.
- ymdrin ag ymholiadau cyffredinol gan y cyfryngau
- ymdrin yn adweithiol ag unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â'r etholiad, er enghraifft honiadau o dwyll etholiadol

5.28 Mae'n bwysig y caiff gweithgarwch cyfathrebu â'r cyfryngau ei reoli mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson drwy'r ardal heddlu gyfan er mwyn cynnal hyder y cyhoedd bod yr etholiad yn cael ei drefnu'n dda. Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol dylai fod proses glir ar waith i ardal yr heddlu sy'n cael ei dilyn gennych chi, Swyddogion Canlyniadau Lleol a'ch timau cyfathrebu priodol er mwyn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

6 Agweddau penodol ar y broses etholiadol



Nod y canllawiau hyn yw rhoi trosolwg i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu o'r agweddau hynny ar y broses etholiadol y maent yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt a nodi lle y gellir ymgymryd â gwaith paratoi cynnar. Bydd canllawiau manwl i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar reoli'r broses enwebu a dilysu a chyfrif ar gael erbyn diwedd y flwyddyn, ond bydd hyn yn dibynnu ar basio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol mewn pryd er mwyn gallu gwneud hyn.

Ymgeiswyr ac asiantiaid

- Gweithiwch gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol i gydgyssylltu'r broses o ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantau drwy'r ardal heddlu gyfan. Rhwch gynlluniau cyfathrebu ar waith i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybodaeth berthnasol mewn modd amserol. Ar y cyd â Swyddogion Canlyniadau Lleol, ystyriwch sut y caiff gwybodaeth leol ei darparu i ymgeiswyr.
- Cynlluniwch ar gyfer sesiynau briffio i ymgeiswyr.
- Amcangyfrifwch faint o ymgeiswyr a allai sefyll etholiad a'i gynnwys yn eich cynlluniau.
- Dechreuwch drafodaethau â Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddarparu copïau o'r gofrestr etholwyr i ymgeiswyr a sut y byddwch yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol ar lofnodwyr papurau ymgeiswyr.

Paratoi papurau pleidleisio

- Mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol, penderfynwch a fyddwch yn argraffu papurau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ganolog neu a fydd angen iddynt gael hargraffu'n lleol gan y Swyddogion Canlyniadau Lleol.
- Mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol (a'r Swyddog Canlyniad perthnasol os cyfunir etholiadau), cytunwch ar liw'r papurau pleidleisio i'w defnyddio drwy'r ardal heddlu gyfan.
- Cytunwch ar fanyleb argraffu ar gyfer papurau pleidleisio etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu mor gynnar â phosibl.

Pleidleisio absennol

- Ymgynghorwch â Swyddogion Canlyniadau Lleol ynglŷn ag anfon pleidleisiau post er mwyn sicrhau bod yr amseriad o ran etholwyr yn derbyn eu pleidleisiau post yn gyson drwy'r ardal heddlu gyfan.
- Lle y caiff etholiadau eu cyfuno, cytunwch â'r Swyddog Canlyniadau perthnasol p'un a gaiff y broses o anfon pleidleisiau post ei chyfuno

Cynnal uniondeb yr etholiad

- Rhowch gynllun uniondeb unigol i ardal yr heddlu ar waith, a fydd yn cynnwys y camau penodol y byddwch yn eu cymryd i nodi ac ymdrin ag unrhyw achos posibl o dwyll etholiadol a sut y byddwch yn cyfleu'ch dull gweithredu er mwyn ennyn hyder y cyhoedd.
- Cyd-gysylltwch â'ch Pwynt Cyswllt Unigol a sicrhewch fod pob Swyddog Canlyniadau Lleol drwy'r ardal heddlu gyfan yn cyfathrebu â'i Bwynt Cyswllt Unigol yn rheolaidd.
- Sicrhewch fod cynlluniau uniondeb Swyddogion Canlyniadau Lleol yn cydweddu â'ch cynllun uniondeb ar gyfer ardal yr heddlu

Dilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad

- Gweithiwch yn agos gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal i lywio unrhyw benderfyniadau ynglŷn â sut y byddwch yn trefnu ac yn rheoli'r broses o ddilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad drwy'r ardal heddlu gyfan. Sut bynnag y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu, dylech sicrhau y bydd cynlluniau Swyddogion Canlyniadau Lleol yn sicrhau safon weinyddu gyson. Cysylltwch â Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gam cynnar er mwyn llywio'r broses o ddatblygu'ch dull gweithredu Cysylltwch ag eraill sydd â diddordeb hefyd, megis ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol, pleidleiswyr a'r cyfryngau.
- Mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol, penderfynwch p'un a fyddwch yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gyfrif pleidleisiau etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Lle na chaiff yr etholiadau eu cyfuno, penderfynwch hefyd mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol p'un a fyddwch yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am y broses ddilysu. Hysbyswch Swyddogion Canlyniadau Lleol o'ch penderfyniad ar gam cynnar yn y broses ddatblygu.
- Wrth ddatblygu'ch cynlluniau, ystyriwch egwyddorion y Comisiwn ynglŷn â phroses dilysu a chyfrif wedi'i threfnu'n dda ac ystyriwch ffactorau ymarferol eraill a all effeithio ar y ffordd y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu a'i hamseriad.
- Cofnodwch bob penderfyniad ynglŷn â'r broses dilysu a chyfrif a hysbyswch y rhai yr effeithir arnynt, o gofio y gall fod trefniadau gwahanol ar waith mewn rhannau gwahanol o ardal yr heddlu.
- Rhowch brotocolau ar waith ar gyfer proses gyfathrebu ddwyffordd rhyngoch chi a Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran gwybodaeth dilysu a chyfrif, gan gynnwys rhoi gwybod am gyfansymiau cyfrifon lleol.

Ymgeiswyr ac asiantau

6.1 Dylai fod yn syml i'r rhai sy'n ymgyrchu gymryd rhan mewn etholiadau. Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, chi sy'n gyfrifol am roi cynlluniau cyfathrebu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantau yn cael gwybodaeth glir ac amserol - gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol - er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses etholiadol. Bydd angen i chi weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal i gydgyssylltu'r broses o ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantau yn lleol ac ar lefel ardal yr heddlu.

6.2 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, rydych yn gyfrifol am bob agwedd ar y broses enwebu yn etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Dylech gymryd camau ar gam cynnar i amcangyfrif faint o ymgeiswyr a allai sefyll etholiad gan y gall hyn gael effaith sylweddol ar wahanol elfennau o'r broses etholiadol, gan gynnwys argraffu papurau pleidleisio, enwebiadau, rheoli'r broses o roi gwybodaeth i ymgeiswyr, a'r broses dilysu a chyfrif. Er mwyn llunio'r amcangyfrif hwn, a pharhau i'w adolygu, dylech ystyried faint o ymgeiswyr a safodd yn ystod yr etholiad diwethaf i ethol Comisiynydd Heddlu a Throseddau, cysylltu'n gynnar â phleidiau gwleidyddol, monitro unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb a, maes o law, fonitro ceisiadau am becynnau enwebu.

Y gofrestr etholwyr

6.3 Mae'n ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ardal yr heddlu roi'r cyfryw gopiâu o'r gofrestr etholwyr i chi ag sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol agweddau ar yr etholiad.³⁹ O ran enwebiadau, bydd angen i chi gael mynediad at y cofrestrau ar gyfer pob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu er mwyn gwirio a yw'r llofnodwyr yn ddilys ac a yw'r llofnodwyr ond wedi llofnodi un papur enwebu o fewn ardal yr heddlu.

6.4 Gall ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddau ofyn am gopi o'r gofrestr lawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer pob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu lle maent yn sefyll. Dim ond os yw'r ymgeisydd wedi gwneud cais ysgrifenedig y gellir darparu cofrestrau.⁴⁰

6.5 Er mai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal bleidleisio sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am dderbyn ceisiadau a darparu cofrestrau i ymgeiswyr, dylech ddechrau trafodaethau â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gam cynnar er mwy penderfynu ar y ffordd orau o sicrhau y gellir darparu cofrestrau i bob ymgeisydd yn y fath fodd ag y bydd ganddynt fynediad amserol a hawdd atynt, a phenderfynu sut y dylid cyfleu hyn.

6.6 Er enghraifft, gallech benderfynu darparu'r cofrestrau'n ganolog ar ran y Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel rhan o'r pecyn enwebu. Mantais y dull gweithredu hwn yw y gallai weithredu fel mai dim ond un ffurflen gais ar gyfer yr holl ardaloedd pleidleisio y byddai angen i ymgeiswyr ei chwblhau ac y byddent yn derbyn eu cofrestrau o un man, yn hytrach na gorfod cysylltu â phob Swyddog Cofrestru Etholiadol ar wahân gyda cheisiadau unigol. Os ydych yn ystyried darparu'r cofrestrau'n ganolog, bydd yn rhaid i chi drafod a chytuno â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol sut y gellid dwyn y gwahanol gofrestrau ynghyd ac yna eu darparu ac ystyried sut y byddai hyn yn gweithio ar gyfer copïau argraffedig a chopïau data. Mae'n rhaid i'r cofrestrau gael eu darparu ar ffurf data oni ofynnir yn benodol am gopi argraffedig.⁴¹ Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cyfleu'n glir i ymgeiswyr a'u hasiantau pa drefniadau bynnag a rowch ar waith er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r cofrestrau i ymgyrchu a chael y llofnodwyr angenrheidiol.

6.7 Yn ystod y broses enwebu, er mwyn cadarnhau a yw llofnodwyr yn ddilys, bydd angen i chi gael mynediad at y cofrestrau etholwyr ar gyfer pob ardal bleidleisio yn ardal yr heddlu. Dylech ddechrau trafodaethau â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol perthnasol ar gam cynnar ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni hyn yn ymarferol. Er enghraifft, efallai y byddwch am gasglu copïau o'r gofrestr gan bob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eich ardal heddlu er mwyn eich galluogi i wneud y gwiriadau eich hun. Os felly, byddai angen i chi benderfynu a fyddwch yn cael y cofrestrau ar ffurf copi caled neu ffurf data. Fel arall, efallai y byddwch am ddirprwyo'r gwaith gwirio i Swyddogion Canlyniadau Lleol unigol, gan ofyn iddynt roi cadarnhad i chi p'un a oes gan y llofnodwyr hawl i lofnodi'r papur pleidleisio.

6.8 Wrth benderfynu sut i reoli'r broses hon, dylech ystyried sut y byddwch yn sicrhau y bydd eich dull gweithredu arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl i'r gwiriadau gael eu cynnal mewn modd amserol. Bydd angen hefyd i chi ystyried unrhyw faterion ymarferol sy'n gysylltiedig â rheoli cofrestrau os ydynt wedi cael eu cynhyrchu gan gyflenwyr meddalwedd gwahanol.

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau

6.9 Fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantau a'u helpu i gymryd rhan yn yr etholiad, dylech ystyried ar y cyd â Swyddogion Canlyniadau Lleol sut y caiff gwybodaeth am drefniadau lleol ei darparu i ymgeiswyr. Bydd trefniadau lleol yn cynnwys manylion gan Swyddogion Canlyniadau Lleol gan gynnwys eu manylion cyswllt a gwybodaeth am y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliadau ar gyfer y prosesau etholiadol allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- anfon ac agor pleidleisiau post
- yr etholiad
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

6.10 Gallech benderfynu coladu a lledaenu gwybodaeth leol yn ganolog, neu gynghori ymgeiswyr ac asiantau i gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol yn uniongyrchol. Pa ddull bynnag a ddewiswch, dylech sicrhau y gall ymgeiswyr gael mynediad hawdd ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn modd amserol er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn yr etholiad.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantau, gan gynnwys drwy sicrhau y rhoddir canllawiau ysgrifenedig iddynt. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi canllawiau ysgrifenedig ar waith i'w rhoi i ymgeiswyr.

6.11 Dylai sesiynau briffio dynnu sylw at bwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad. Yn benodol, dylech roi sesiwn friffio ar y broses enwebu, gan gynnwys terfynau amser, rheolau cyflwyno, defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin, a'r defnydd o enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd am sefyll etholiad yn cael y wybodaeth angenrheidiol i'w

galluogi i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud. Yn ystod eich sesiynau briffio, dylech bwysleisio pa mor bwysig ydyw bod ymgeiswyr yn deall y rheolau cymhwys ac anghymhwys sy'n gymwys, gan fod rhai yn wahanol i'r rhai sy'n gymwys fel arfer mewn etholiadau eraill (yn enwedig, bod yn anghymwys os ydych wedi cael eich collfarnu o drosedd garcharadwy) a gallai hyn achosi dryswch hyd yn oed ymhlith y rhai sydd wedi sefyll etholiad o'r blaen.

6.12 Dylai'r sesiynau briffio ganiatáu ar gyfer y ffaith y bydd nifer sylweddol o ymgeiswyr ac asiantau newydd neu lai profiadol o bosibl sy'n anghyfarwydd ag arferion a phrosesau etholiad ac y bydd angen eich cymorth arnynt er mwyn gallu cymryd rhan yn effeithiol. Bydd gan hyd yn oed y rhai mwy profiadol ychydig o brofiad o sefyll mewn etholiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu o ystyried bod yr etholiadau hyn yn gymharol newydd o hyd.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantau, gan gynnwys drwy drefnu sesiynau briffio iddynt. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi drefnu sesiynau briffio a pharatoi adnoddau briffio.

6.13 Gall pob ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddarparu anerchiad etholiadol i'r Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu i'w gyhoeddi ar wefan a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n rhaid i anerchiad etholiadol ymgeisydd gael ei baratoi gan ei asiant etholiadol a'i gyflwyno i chi ar ffurf a ragnodir o dan y gyfraith erbyn terfyn amser a bennir gennych.⁴² Fel rhan o'ch gwaith cynllunio, bydd angen i chi ystyried sut y bwriadwch reoli'r broses hon yn ymarferol. Caiff canllawiau pellach eu darparu ar y wefan gan Swyddfa'r Cabinet neu'r Swyddfa Gartref.

Paratoi papurau pleidleisio

6.14 Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol am baratoi papurau pleidleisio ar gyfer eu hardal bleidleisio. Cewch ymgymryd â'r cyfrifoldeb am argraffu papurau pleidleisio mewn unrhyw ardal bleidleisio neu bob ardal bleidleisio drwy roi rhybudd i'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol. Os bwriadwch ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn dylech hysbysu'r Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol ar ddechrau'r broses cynllunio etholiad, a rhoi gwybod iddynt mor fuan â phosibl pryd a sut y caiff y papurau pleidleisio eu dosbarthu iddynt i'w hanfon mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post a'u defnyddio mewn gorsafoddedd pleidleisio. Os penderfynwch ymgymryd â swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau Lleol, bydd y broses o reoli contractwyr a chyflenwyr yn effeithiol yn hollbwysig. Ceir canllawiau cyffredinol ynglŷn â rheoli contractwyr a chyflenwyr, a fyddai hefyd yn berthnasol i unrhyw Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am argraffu papurau pleidleisio, yn ein [canllawiau i Swyddogion Canlyniadau yn Lloegr](#) ac [yng Nghymru](#) a'n [rhestr wirio ar reoli contractwyr a chyflenwyr](#).

6.15 Rhagnodir ffurf a chynnwys y papur pleidleisio mewn deddfwriaeth⁴³. Fodd bynnag, dylech gydgysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran paratoi papurau pleidleisio a chymryd y cyfryw gamau ag sy'n angenrheidiol yn eich barn chi, gan gynnwys rhoi canllawiau neu gyfarwyddiadau penodol i Swyddogion Canlyniadau Lleol ag sy'n briodol yn eich barn chi, er mwyn sicrhau bod ffurf a chynnwys y papurau pleidleisio a roddir yn ystod yr etholiad yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol a'u bod yn gyson drwy'r ardal heddlu gyfan.

Lliw'r papur pleidleisio

6.16 Ni ragnodir lliw'r papurau pleidleisio, na'r lliw a ddefnyddir ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd, ond mae'n rhaid i liw papurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn wahanol i liw papurau pleidleisio arferol.⁴⁴ Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, dylech benderfynu'n gynnar pa liw fydd y papurau pleidleisio yn eich ardal heddlu ac ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau Lleol cyn gwneud eich penderfyniad. Dylech hefyd ystyried ymgynghori â chyflenwyr argraffu ynglŷn â'r lliw er mwyn sicrhau nad yw eich dewis yn achosi anawsterau cyflenwi neu gynhyrchu.

6.17 Mewn etholiadau cyfun, mae'n rhaid defnyddio papurau pleidleisio o wahanol liw ar gyfer pob etholiad.⁴⁵ Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu bydd angen i chi weithio'n agos gyda'r holl Swyddogion Canlyniadau perthnasol drwy'r ardal heddlu gyfan er mwyn cytuno ar liw'r papurau pleidleisio i'w ddefnyddio.

6.18 Wrth benderfynu ar liw'r papurau pleidleisio dylech ystyried materion hygyrchedd o ran lliw a chyferbyniad. [Mae adran 6 o ganllawiau'r Comisiwn Making your mark good practice design](#) yn cynnwys cyngor ar ddewis lliwiau.

Manylebau argraffu

6.19 Dylech ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gynnar yn ystod y broses gynllunio ynglŷn â pharatoi papurau pleidleisio er mwyn eu galluogi i gadarnhau eu gofynion a'u trefniadau argraffu â'u chyflenwyr ar gam cynnar yn y broses.

6.20 Er nad oes modd cadarnhau cynnwys terfynol y papur pleidleisio nes bod y broses enwebu wedi cau, yn ogystal â chadarnhau'r lliw, bydd angen i chi benderfynu ar yr elfennau canlynol o'r papur pleidleisio ar gam cynnar:

- rhifau'r papur pleidleisio
- nod adnabod unigryw
- y 'nod swyddogol'

6.21 Yn benodol, bydd angen i chi ystyried sut y gellid sicrhau nad oes unrhyw bapurau pleidleisio yn ardal yr heddlu yn dyblygu ei gilydd. Bydd angen i'r nod adnabod unigryw fod yn unigryw i bob papur pleidleisio drwy'r ardal heddlu gyfan. Os penderfynwch fod y nodau adnabod unigryw i'w defnyddio drwy'r ardal heddlu gyfan yn cynnwys ailadrodd rhif y papur

pleidleisio ynghyd â rhagddodiad, dylech ystyried datblygu rhagddodiaid unigryw ar gyfer pob ardal bleidleisio a fyddai wedyn yn rhoi hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran sut maent yn rhifo'r papurau pleidleisio o fewn eu hardal bleidleisio.

Pleidleisio absennol

6.22 Dylech ystyried sut y bwriadwch weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn sicrhau bod pob pleidleisiwr absennol drwy'r ardal heddlu gyfan yn cael gwasanaeth o safon gyson uchel, lle bynnag y maent wedi'u cofrestru. Yn benodol, dylech ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau Lleol ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer anfon pleidleisiau post yn eu hardal bleidleisio gyda'r nod o sicrhau bod yr amseriad o ran etholwyr yn derbyn eu pleidleisiau post yn gyson drwy'r ardal heddlu gyfan.

6.23 Os bydd etholiadau cyfun yn eich ardal, bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau perthnasol benderfynu a ddylid anfon pleidleisiau post ar y cyd neu ar wahân, a bydd angen i chi gydgysylltu â'r swyddog perthnasol er mwyn sicrhau bod ei benderfyniad yn cael ei adlewyrchu yn eich cynlluniau cyffredinol.

Cynnal uniondeb yr etholiad

6.24 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr ac ymgeiswyr fod yn ffyddiog y bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw a'u cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd gan bleidleiswyr, bydd angen i chi roi cynlluniau a phrosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch a allai fod yn arwydd o dwyll etholiadol posibl. Dylai eich cynlluniau gynnwys camau penodol i nodi ac ymdrin ag unrhyw achos posibl o dwyll etholiadau, a dylent hefyd nodi sut y byddwch yn rhoi gwybod am y ffordd y byddwch yn cynnal uniondeb yr etholiad er mwyn ennyn hyder y cyhoedd yn yr etholiad.

6.25 Dylech roi arweiniad ar faterion sy'n ymwneud ag uniondeb er mwyn i un cynllun uniondeb gael ei baratoi i ardal yr heddlu mewn trafodaeth â'r heddlu a phob Swyddog Canlyniadau Lleol er mwyn ychwanegu at eich cynllun prosiect cyffredinol.

6.26 Dylai cynlluniau uniondeb y Swyddogion Canlyniadau Lleol eu hunain gydweddu â chynllun ardal yr heddlu a chynnwys unrhyw faterion a nodwyd yn lleol ganddynt. Ceir canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gynlluniau uniondeb yn ein [canllawiau i Swyddogion Canlyniadau yn etholiadau 2016](#). Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â phob un o'r ardaloedd pleidleisio yn yr ardal heddlu gyfan, gan gynnwys ystyried honiadau blaenorol o dwyll etholiadol a'r risg o honiadau o dwyll etholiadol mewn perthynas ag etholiadau eraill sy'n digwydd ar yr un diwrnod ag etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

6.27 Dylech hefyd rannu'r ffordd rydych yn bwriadu mynd i'r afael â thwyll etholiadol â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantau mewn sesiynau briffio a/neu yn

y wybodaeth a roddir iddynt ac ystyried gwahodd yr heddlu i fynychu sesiynau briffio o'r fath, lle y bo'n briodol.

6.28 Mewn rhai achosion, lle y ceir risg sylweddol o honiadau o dwyll etholiadol, dylech hefyd ystyried cyfleu'r ffordd rydych yn bwriadu mynd i'r afael â thwyll yn fwy cyffredinol cyn dydd yr etholiad er mwyn rhoi sicrwydd i bleidleiswyr ac ymgyrchwyr.

Ar ôl ymgyngori â Swyddogion Canlyniadau, heddluoedd a phleidiau gwleidyddol, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr yn ystod etholiadau a refferenda](#). Mae'r Cod yn gymwys i bob ymgyrchwr, ac mae'n nodi safonau ymddygiad priodol y cytunwyd arnynt cyn ac yn ystod etholiad neu refferendwm. Mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn glir, os bydd Swyddog Canlyniadau yn ystyried ei bod yn briodol mynd i'r afael â risgiau lleol penodol eraill, ac wedi ymgyngori â phleidiau cenedlaethol a lleol perthnasol, y byddwn yn ei helpu i gyflwyno darpariaethau lleol ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i delerau'r Cod y cytunwyd arno'n genedlaethol.

6.29 Dylech sefydlu a chynnal cysylltiadau â'r heddlu ar lefel briodol. Bydd swyddog yr heddlu sy'n gweithredu fel y Pwynt Cyswllt Unigol yn gallu rhoi manylion cyswllt i chi am yr uned reoli neu arwain berthnasol yn yr heddlu, a bydd hefyd yn gallu esbonio unrhyw strwythur rhanbarthol yn yr heddlu os yw hynny'n briodol. Dylech sicrhau eich bod yn cael manylion cyswllt unrhyw Bwyntiau Cyswllt Unigol rhanbarthol, a sicrhau bod y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal yn trefnu i fod mewn cysylltiad rheolaidd â hwy.

6.30 Dylech hefyd fod yn ymwybodol, oherwydd natur unigryw etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, y gall fod amgylchiadau pan fydd yr heddlu yn penderfynu y byddai'n briodol gofyn i heddlu arall ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol sy'n ymwneud â'r etholiadau hyn. O dan amgylchiadau o'r fath, dylech sicrhau eich bod yn cysylltu â'r swyddog arweiniol perthnasol o'r heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad mor fuan â phosibl.

Ceir canllawiau manylach ar gynnal uniondeb yr etholiad, gan gynnwys ymdrin â honiadau o dwyll etholiadol [yn Rhan B – Cynllunio a threfnu ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol](#).

Dilysu, cyfrif a choladu'r canlyniad

6.31 Un o'r agweddau ar y broses etholiadol lle y byddwch yn awyddus i sicrhau bod cysondeb yw dilysu a chyfrif pleidleisiau a choladu'r canlyniad. Felly, bydd angen i chi ystyried pryd, ble a sut y caiff y pleidleisiau eu dilysu a'u cyfrif gan Swyddogion Canlyniadau Lleol.

6.32 Dylech weithio'n agos gyda'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal er mwyn llywio unrhyw benderfyniadau ar gam cynnar ynglŷn â sut y caiff y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau a choladu'r canlyniad ei threfnu a'i rheoli drwy'r ardal heddlu gyfan, gan gynnwys y prosesau i'w dilyn wrth

goladu'r canlyniad, er mwyn iddynt ddatblygu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer dilysu a chyfrif yn unol â hynny.

6.33 Lle y caiff etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei gyfuno ag etholiad arall, bydd cydweithredu effeithiol rhwng y Swyddogion Canlyniadau gwahanol drwy'r ardal heddlu gyfan yn hollbwysig oherwydd y cymhlethdod ychwanegol.

6.34 Lle nad yw'r bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi'i chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall, cewch ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ddilysu a chyfrif y pleidleisiau mewn unrhyw un neu bob un o'r ardaloedd pleidleisio drwy roi rhybudd i'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol. Os bwriadwch ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn dylech hysbysu'r Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol yn gynnar yn ystod y broses cynllunio etholiad, a chydgysylltu â hwy o ran pryd a sut y caiff y papurau pleidleisio eu dosbarthu i chi.

Egwyddorion ar gyfer prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau effeithiol

6.35 Wrth ddatblygu'ch cynlluniau, eich prosesau a'ch protocolau dylech ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Mae pob proses yn dryloyw, gyda thrywydd archwilio clir a diamwys.
- Mae'r broses ddilysu yn arwain at ganlyniad cywir. Golyga hyn fod nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau pleidleisio a roddwyd fel y nodir ar gyfrif y papurau pleidleisio neu, os nad felly:
 - mae'r hyn sydd wedi achosi'r amrywiant wedi cael ei nodi a gellir ei esbonio, a/neu
 - mae'r blwch wedi cael ei ailgyfrif o leiaf ddwywaith, nes bod yr un nifer o bapurau pleidleisio yn cael eu cyfrif ar ddau achlysur olynol.
- Mae'r broses gyfrif yn arwain at ganlyniad cywir, lle mae cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd i bob ymgeisydd a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu.
- Mae'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau a choladu'r canlyniad yn amserol.
- Cedwir cyfrinachedd y bleidlais bob amser
- Cedwir diogelwch papurau pleidleisio a deunyddiau ysgrifenedig eraill bob amser.

6.36 Wrth ddatblygu proses o goladu'r canlyniad, bydd angen i chi ystyried pob cam allweddol sy'n cyfrannu at y canlyniad cyffredinol, gan gynnwys dilysu'r papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau ym mhob un o'r ardaloedd pleidleisio, coladu'r cyfansymiau lleol a chyfrifo'r canlyniad, a sicrhau y caiff y rhain eu trefnu, eu rheoli a'u cyflawni yn y fath fodd ag sy'n sicrhau y gellir cydymffurfio â'r egwyddorion hyn.

Dilysu a chyfrif pleidleisiau

6.37 Oherwydd y posibilrwydd y bydd angen dau gylch cyfrif mewn etholiad pleidlais atodol mae ffactorau ychwanegol y bydd angen i chi eu hystyried wrth gynllunio'r broses o goladu'r canlyniad yn gyffredinol ac wrth gydgyssylltu gwaith y Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth iddynt drefnu a rheoli'r broses o ddilysu a chyfrif pleidlais atodol ar gyfer eu hardaloedd pleidleisio.

6.38 O dan system y bleidlais atodol mae'n rhaid cyfrif yr holl bleidleisiau ffafriaeth gyntaf yn ardal yr heddlu, mae'n rhaid rhoi cyfansymiau cyfrifon lleol i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, ac mae'n rhaid i ganlyniad y cyfrif hwnnw gael ei ddatgan, cyn y gallwch gyfrifo a oes ymgeisydd wedi'i ethol.⁴⁶ Os nad oes ymgeisydd wedi'i ethol, mae'n rhaid i chi nodi pa rai o'r ymgeiswyr sy'n dal i ymladd yr etholiad ar ôl y cyfrif cyntaf, pryd y gellir cyfrif y pleidleisiau ail ffafriaeth.⁴⁷ Os cynhelir ail gyfrif mae hyn yn debygol o gymryd llai o amser na'r cyfrif cyntaf am y bydd llai o ymgeiswyr yn dal i ymladd yr etholiad ac mai dim ond pleidleisiau ail ffafriaeth pleidleiswyr a fwriodd bleidlais dros ymgeisydd a gafodd ei dynnu o'r cyfrif y mae angen eu cyfrif. Mae'r ffactorau hyn yn dangos bod angen i chi fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gydgyssylltu amseriad a threfniadau dilysu a chyfrif er mwyn sicrhau y cânt eu cynnal mewn modd amserol ac effeithiol drwy'r ardal heddlu gyfan.

6.39 Yn ogystal ag ystyried sut y dylid cydymffurfio â'r egwyddorion allweddol, dylech ystyried ffactorau ymarferol perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar drefniadau ac amseriad, megis:

- etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal yn ardal yr heddlu
- nifer yr awdurdodau lleol yn ardal yr heddlu
- y nifer sy'n pleidleisio
- daearyddiaeth ardal yr heddlu
- maint lleoliadau
- tryloywder i ymgeiswyr
- cost

Y broses gwneud penderfyniadau

6.40 Dylech ymgysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gam cynnar er mwyn llywio'ch gwaith wrth i chi ddatblygu'r ffordd y byddwch yn cydgysylltu'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau. Dylech ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau Lleol ar eich cynigion o ran pryd, ble a sut i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau, gan nodi unrhyw ragdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd gennych i lywio'ch cynigion. Dylech hefyd gael deialog ag eraill sydd â diddordeb cyn gwneud eich penderfyniad, gan gynnwys darpar ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol, pleidleiswyr a'r cyfryngau. Dylech esbonio pa ffactorau sy'n berthnasol i'ch penderfyniad ac egluro goblygiadau'ch cynigion o ran pryd y caiff y canlyniad ei ddatgan. Er y dylech geisio barn y rhai yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb er mwyn llywio'ch penderfyniadau, chi fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud y penderfyniadau.

6.41 Dylech gynllunio a chwblhau'ch gweithgarwch ymgynghori, cynnal deialog a gwneud penderfyniadau mewn da bryd, cyn i gyfnod ffurfiol yr ymgyrch etholiadol ddechrau, fel y gellir hysbysu Swyddogion Canlyniadau Lleol am eich penderfyniadau er mwyn iddynt gael eu hadlewyrchu yn eu gwaith cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau.

6.42 Ar ôl i chi wneud eich penderfyniadau ynglŷn â phryd, ble a sut i ddilysu a chyfrif, dylech eu cofnodi, ynghyd â'r wybodaeth a ystyriwyd gennych wrth wneud y penderfyniadau, a dylech fod yn gallu esbonio'r rhesymau dros eich penderfyniadau os gofynnir i chi wneud hynny. Dylech hysbysu'r rhai yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb am eich penderfyniadau, gan gynnwys ymgeiswyr ac asiantau, a'r cyfryngau ac eraill roeddech wedi ceisio eu barn neu wedi cael sylwadau ganddynt cyn gwneud eich penderfyniadau.

6.43 Os bydd trefniadau gwahanol ar waith mewn rhannau gwahanol o ardal yr heddlu, dylech sicrhau eich bod yn rhoi gwybodaeth glir i ymgeiswyr ac asiantau, ac eraill a all fod yn bresennol neu'n arsylwi ar y prosesau dilysu a chyfrif ynglŷn â pha agweddau ar y prosesau hynny a all fod yn wahanol, a pham.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau y caiff prosesau dilysu a chyfrif eu cynllunio a'u rheoli er mwyn sicrhau canlyniad cywir. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi gwybodaeth ar waith ynglŷn â sut y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu a'i rheoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych wrth wneud eich penderfyniad.

Pryd i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau

6.44 Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol ddechrau dilysu cyfrifon papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.⁴⁸ Mae'n rhaid iddynt hefyd brosesu unrhyw bleidleisiau post a dderbyniwyd ar ddiwrnod yr etholiad, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i orsafoedd pleidleisio. Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, bydd angen i chi ystyried amseriad y broses dilysu, cyfrif a datgan canlyniad drwy'r ardal heddlu gyfan, a sut y byddwch yn sicrhau y gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gadw at yr amseriadau hyn.

6.45 Yn amodol ar y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau ddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio, gallwch gyfarwyddo pryd mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol ddechrau'r broses ddilysu. Lle y caiff y bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall, gallwch gyfarwyddo pa Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif bynnag sy'n gyfrifol am ddilysu a chyfrif y papurau pleidleisio ynghylch pryd y bydd yn rhaid iddo ddechrau'r broses ddilysu. Dylai unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ynglŷn ag amseriad gael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Swyddog(ion) Canlyniadau neu'r Swyddog(ion) Cyfrif perthnasol er mwyn sicrhau bod modd cydymffurfio'n ymarferol.

6.46 Yr egwyddor gyffredinol a ddylai fod yn sail i benderfyniadau Swyddogion Canlyniadau ynglŷn ag amseriad cyfrifon etholiadol yw'r angen i sicrhau canlyniad cywir y mae pleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn ymddiried ynddo.

6.47 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, dylech ystyried yr egwyddor hon yn ofalus wrth benderfynu pryd, ble a sut y caiff y pleidleisiau ym mhob ardal bleidleisio eu dilysu a'u cyfrif. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn hyderus y caiff eich prosesau chi a phrosesau Swyddogion Canlyniadau ddigon o adnoddau ac y cânt eu rheoli mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl i'r cyfrif arwain at ganlyniad amserol, p'un a oes un cyfrif neu ddau. Dylai eich penderfyniad ynglŷn ag amseriad y broses dilysu a chyfrif allu cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol:

- Etholiad unigol yw pob etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n arwain at un canlyniad ar gyfer ardal yr heddlu yn ei chyfanrwydd. Mae cyfanswm pob ardal bleidleisio yn cyfrif tuag at ganlyniad ar gyfer ardal yr heddlu yn ei chyfanrwydd ac felly bydd yn bwysig nodi cyfnod penodol pryd y caiff yr holl bleidleisiau eu cyfrif ac y caiff cyfansymiau eu cyhoeddi ar gyfer pob ardal bleidleisio.
- Mae'n rhaid i ganlyniad yr etholiad fod yn gywir. Yn sail i'r penderfyniad ynglŷn ag amseriad y broses dilysu a chyfrif mae'r angen i sicrhau canlyniad cywir y gall pleidleiswyr ac ymgeiswyr ymddiried ynddo. Mae hyn yn golygu, wrth bennu'r cyfnod ar gyfer cynnal y cyfrif, fod yn rhaid pennu'r cyfryw gyfnod fel y bydd modd i Swyddogion Canlyniadau Lleol gael digon o adnoddau ar ei gyfer a chynnal proses dilysu a chyfrif wedi'i threfnu'n dda.
- Y posibilrwydd y caiff etholiadau eu cyfuno yn ardal yr heddlu a faint o etholiadau a gaiff eu cyfuno. Lle y caiff etholiadau eu cyfuno, p'un a yw hynny mewn rhai o'r ardaloedd pleidleisio neu bob un, bydd angen i chi ystyried hyn wrth nodi'r opsiynau ar gyfer amseriad dilysu a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Dylech gael gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol am yr etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal a'r cynlluniau ar gyfer dilysu a chyfrif yn yr etholiadau eraill, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'ch rhagdybiaethau cynllunio. Pan fyddwch yn rhoi gwybod am y cynlluniau ynglŷn â phryd i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau, dylech nodi'n glir pa ffactorau sy'n ymwneud â chyfuno etholiadau rydych wedi'u hystyried wrth eu llunio, ac unrhyw oblygiadau penodol i'ch penderfyniadau ar gyfer ardaloedd lle y cyfunir etholiadau. Dylech hefyd sicrhau eich bod yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau yn etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu am yr holl ardaloedd pleidleisio, gan nodi lle y cyfunir etholiadau a lle mae hyn wedi cael effaith ar y penderfyniad, gan gynnwys lle mae wedi arwain at roi trefniadau gwahanol ar waith. Dylech barhau i adolygu'ch cynlluniau er mwyn ymdrin ag unrhyw sefyllfaoedd sy'n codi, megis cyhoeddi isetholiad ar yr un diwrnod ag etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

- Ystyriaethau ymarferol eraill. Mae hefyd nifer o ffactorau ymarferol eraill y byddwch am eu hystyried o bosibl wrth ddatblygu'ch cynigion a gwneud eich penderfyniad ynglŷn â phryd y caiff y pleidleisiau eu dilysu a'u cyfrif, megis: y ffaith y bydd yr etholiad yn cael ei gynnal o dan system y bleidlais atodol pryd bynnag y bydd tri ymgeisydd, neu fwy; nifer yr ardaloedd pleidleisio yn ardal yr heddlu; faint o etholiadau sy'n cael eu cyfuno yn ardal yr heddlu; adnoddau, gan gynnwys y staff a'r lleoliadau sydd ar gael.

Amseriad y cyfrif

6.48 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, byddwch chi a'ch tîm prosiect yn cytuno ar y ffordd y byddwch yn gweithredu o ran amseriad y broses ddilysu a'r cyfrif. Lle y caiff etholiadau eu cyfuno, bydd angen i chi gydgyssylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn yr ardal a gwneud penderfyniadau mor gynnar â phosibl yn ystod y broses.

6.49 Yn ei adroddiad yn 2012, [Timing of election counts](#) argymhellodd y Comisiwn y canlynol: 'In order to allow political parties and candidates to campaign and voters to make their choices on the substantive issues at the heart of the election, decisions on the timing of the count should be taken outside of the campaign period proper. That is, before notice of election is issued'. O ran etholiadau tymor penodol, mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai penderfyniadau gael eu gwneud gan Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu, Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau heb fod yn hwyrach na diwedd mis Ionawr cyn etholiad sy'n cael ei gynnal ar ddechrau mis Mai gan gymryd yn ganiataol bod pob rhanbarth etholiadol yn bwriadu cyfrif y pleidleisiau ar yr un pryd.

Trefnu'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau

6.50 Gellir trefnu'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau mewn sawl ffordd drwy'r ardal heddlu gyfan, a bydd angen i chi benderfynu pa opsiwn sydd orau i'ch ardal heddlu chi, yn seiliedig ar yr etholiadau sy'n cael eu cyfuno, a yw dirprwyon wedi cael eu penodi, eich amgylchiadau lleol ac amgylchiadau'r Swyddogion Canlyniadau Lleol a, lle y bo'n berthnasol, Swyddogion Canlyniadau eraill yn eich ardal heddlu.

6.51 Mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unig, Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol am ddilysu cyfrifon papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer eu hardal bleidleisio, oni bai eich bod wedi cadw'r cyfrifoldeb hwnnw yn ôl i chi'ch hun drwy hysbysu'r Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol.

6.52 Ar ôl cwblhau'r weithdrefn ddilysu mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unig, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol eich hysbysu am gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd.⁴⁹

6.53 Os caiff y pleidleisiau eu cyfrif mewn lleoliad gwahanol i'r broses ddilysu, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol selio'r papurau pleidleisio wedi'u dilysu mewn pecynnau â rhestrau cynnwys a'u hanfon i leoliad y cyfrif, ynghyd â'r cyfrifon papurau pleidleisio a'r datganiad dilysu.⁵⁰ Cewch gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol i gynnal gweithdrefnau dilysu ychwanegol ar ôl i'r dogfennau hyn gael eu cyflwyno i leoliad y cyfrif.

6.54 Lle mae'r bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall, y Swyddog Canlyniadau perthnasol fydd yn gyfrifol am ddilysu'r papurau pleidleisio ym mhob etholiad. Fodd bynnag, y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn gyfrifol o hyd am gyfrif y pleidleisiau ar gyfer ei ardal gyfrif. Felly, lle mae etholiadau wedi cael eu cyfuno, dylech gydgyssylltu â'r Swyddog Canlyniadau perthnasol er mwyn sicrhau cysondeb y broses ddilysu drwy'r ardal heddlu gyfan.

6.55 Lle mae etholiadau wedi cael eu cyfuno, bydd angen i chi gael y datganiad dilysu gan y Swyddog Canlyniadau perthnasol er mwyn eich galluogi i wirio cyfansymiau'r cyfrifon lleol yn erbyn y datganiad dilysu a nodi unrhyw amrywiannau posibl. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol eich hysbysu am gynnwys y datganiad o gyfansymiau cyfrifon lleol, ar ôl iddo gael ei baratoi.

6.56 Lle y caiff etholiadau eu cyfuno, bydd angen i chi gydgyssylltu â'ch tîm prosiect mor gynnar â phosibl yn y broses gynllunio a phenderfynu ar y ffordd y caiff y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau ei threfnu yn eich ardal er mwyn sicrhau'r broses fwy effeithiol a thryloyw.



Mae'r Comisiwn wedi paratoi canllawiau ar y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau.

Ceir canllawiau ar egwyddorion proses dilysu a chyfrif effeithiol yn [Rhan E – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#).

I gael canllawiau ymarferol ar y broses dilysu a chyfrif, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau](#)'.

6.57 Mae dau opsiwn cyffredinol ar gyfer trefnu'r prosesau cyfrif ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ardal yr heddlu:

- **Cyfrifon lleol unigol a choladu canolog gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu:** O dan yr opsiwn hwn byddai Swyddogion Canlyniadau Lleol yn dilysu ac yn cyfrif y pleidleisiau yn eu hardal bleidleisio a throsglwyddo eu cyfansymiau lleol i chi mewn man canolog, yn debyg i'r hyn a wneir fel arfer mewn etholiad ar gyfer Senedd Ewrop. Os felly, byddai angen i chi sicrhau bod y broses sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo a derbyn cyfansymiau oddi wrth bob Swyddog Canlyniadau Lleol i'r man canolog yn gallu sefydlu trywydd archwilio clir, yn amserol, ac yn cefnogi'r broses o ddatblygu canlyniad cywir.
- **Cyfrif canolog i ardal yr heddlu:** Mae dau brif amrywiad ar gyfrif canolog: cyfrif lle y caiff pleidleisiau eu dilysu'n lleol cyn cael eu

trosglwyddo i leoliad cyfrif canolog, lle y byddai'r holl bleidleisiau ar gyfer ardal yr heddlu yn cael eu cyfrif wedyn; neu gyfrif lle y caiff pleidleisiau ar gyfer pob ardal bleidleisio eu dilysu a'u cyfrif yn un lleoliad cyfrif canolog.

6.58 Fodd bynnag, mae amrywiadau o fewn y ddau opsiwn hyn a gelir trefnu cyfrifon mewn ffyrdd eraill o fewn ardal heddlu. Er enghraifft, mewn ardal heddlu, gallai rhai ardaloedd awdurdod lleol gyfrif yn lleol, tra bydd eraill yn dod ynghyd a chynnal cyfrifon ar sail fwy canolog.

6.59 Dylech gydgyssylltu'n agos â'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal wrth benderfynu sut i weithredu. Mewn ardaloedd lle y caiff y bleidlais yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall, dylech weithio'n agos gyda'r Swyddogion Canlyniadau perthnasol i gytuno ar sut i weithredu. Pa opsiwn bynnag a ddewisir, bydd risgiau a buddiannau yn gysylltiedig ag ef. Bydd angen i chi nodi'r rhain wrth i chi ddatblygu'ch cynigion ar gyfer ymgynghoriad ac, ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, weithio gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol (neu'r Swyddog Canlyniadau perthnasol yn achos etholiadau cyfun) er mwyn cynllunio sut y byddwch yn rheoli ac yn lliniaru'r risgiau.

6.60 Rydym wedi nodi yma rai o'r ffactorau allweddol y bydd angen i chi eu hystyried wrth benderfynu sut i drefnu a rheoli'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn eich ardal heddlu:

- **Sicrhau cysondeb:** Bydd gan Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff brofiad blaenorol o gynnal cyfrifon etholiadol yn eu hardal bleidleisio a bydd ganddynt eu prosesau a'u llifau gwaith eu hunain y maent yn gyfarwydd â hwy. Er y bydd y wybodaeth a'r profiad hwn yn ddefnyddiol o ran helpu i benderfynu ar y ffordd orau o drefnu a rheoli'r broses dilysu a chyfrif, dylech ystyried sut y byddwch yn sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff pleidleisiau eu dilysu a'u cyfrif drwy'r ardal heddlu gyfan, ni waeth ble y caiff y prosesau eu cynnal.
- **Adnoddau ac argaeledd staff:** Bydd y gwaith o nodi, recriwtio a hyfforddi digon o staff medrus i gynnal y cyfrif hefyd yn ystyriaeth allweddol. Er enghraifft, yn dibynnu ar ddaearyddiaeth ardal yr heddlu, efallai y bydd yn fwy anodd recriwtio'r niferoedd angenrheidiol o staff addas i weithio mewn lleoliad canolog nag y byddai pe bai pobl yn cael eu recriwtio i weithio mewn lleoliad sy'n agosach i'w cartrefi, sydd hefyd yn fwy tebygol o fod yn staff profiadol sydd wedi gweithio ar gyfrifon etholiadol yn y gorffennol.
- **Defnyddio staff:** Dylech hefyd ystyried sut i ddefnyddio staff yn y ffordd fwyaf effeithlon. Os bydd mwy na dau ymgeisydd, mae posibilrwydd y bydd angen ail gyfrif. Bydd angen i'r cylch cyfrif cyntaf gael ei gwblhau gan bob Swyddog Canlyniadau Lleol a bydd angen i'r cyfansymiau gael eu coladu cyn y gall unrhyw ail gyfrif ddechrau. Gallai hyn olygu, oni chaiff cyfrifon eu cwblhau o fewn amser tebyg, y bydd staff cyfrif mewn rhai ardaloedd pleidleisio wedi cwblhau'r broses o bosibl tra bydd eraill yn dal i gyfrif. Os bydd staff cyfrif mewn un (neu sawl) lleoliad canolog gellir eu defnyddio'n hyblyg i sicrhau'r

cynhyrchiant gorau posibl er mwyn i'r cyfrif gael ei gwblhau mewn modd amserol. Os bydd staff mewn canolfannau cyfrif lleol ar wahân mae'n debygol y bydd staff cyfrif mewn rhai ardaloedd wedi cwblhau'r broses o bosibl tra bydd eraill yn dal i gyfrif. Bydd angen i chi ystyried sut i sicrhau bod y trefniadau cyfrif yn ei gwneud yn bosibl i bob ardal pleidleisio gwblhau eu cyfrif o fewn terfyn amser rhesymol i'w gilydd.

- **Lleoliadau:** Bydd angen i unrhyw leoliadau a ddefnyddir fod yn ddigon mawr i gynnal y prosesau a rhoi lle i'r staff angenrheidiol, a'i gwneud yn bosibl i brosesau gael eu cynnal yn effeithiol ac yng ngolwg y rhai y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol, gan ystyried presenoldeb posibl y cyfryngau pan gaiff y canlyniad ei ddatgan. Bydd gan Swyddogion Canlyniadau Lleol leoliadau (a lleoliadau wrth gefn) eisoes y maent wedi'u defnyddio yn y gorffennol ac y maent yn gyfarwydd â hwy, ynghyd â llifau gwaith dilysu a chyfrif a'r trefniadau sy'n addas ar gyfer y lleoliadau hyn. Os ydych yn defnyddio lleoliad canolog, bydd maint y lle sydd ei angen yn dibynnu ar faint ardal yr heddlu a nifer yr etholwyr. Bydd angen hefyd i chi nodi trefniadau wrth gefn a'u rhoi ar waith, a all gynnwys nodi lleoliadau addas o faint tebyg os caiff lleoliad ei golli.
- **Trosglwyddo cyfansymiau lleol:** mae angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol drosglwyddo eu cyfansymiau lleol i Swyddogion Canlyniadau Ardal yr Heddlu er mwyn gallu cyfrifo canlyniad ardal yr heddlu. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn darparu cyfarwyddiadau ynglŷn â'r dull i'w ddefnyddio i drosglwyddo'r wybodaeth yn gywir ac yn ddiogel, a rhoi prawf ar y broses ymlaen llaw. Mae mwy o risgiau gyda'r broses hon os caiff y cyfrif ei gynnal yn lleol, er enghraifft, o ganlyniad i broblemau technegol, a bydd angen i chi ddatblygu trefniadau wrth gefn i'w rhoi ar waith os bydd problemau technegol yn codi.
- **Diogelwch a logisteg:** Dylech sicrhau bod y papurau pleidleisio yn cael eu storio'n ddiogel bob amser. Bydd hon yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw gynigion a fyddai'n gofyn am gludo blychau pleidleisio i leoliad canolog, neu rhwng lleoliadau ar ôl iddynt gael eu dilysu. Dylech ystyried yn ofalus y risgiau posibl i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â chludo blychau pleidleisio a'r heriau logistaidd cysylltiedig, gan gynnwys sut i sicrhau bod y papurau pleidleisio cywir ar gyfer pob etholiad yn y man cywir lle y cyfunir etholiadau fel y gall pob papur pleidleisio gael ei gynnwys yn y cyfrif priodol.

6.61 Dylai eich penderfyniadau ynghylch pryd, ble a sut y dylid dilysu a chyfrif pleidleisiau gael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion a'r ystyriaethau a nodir yn y bennod hon. Ar ôl i chi wneud eich penderfyniadau dylech ystyried y ffordd orau o sicrhau y bydd cynlluniau Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gyfer rheoli eu prosesau dilysu a chyfrif a darparu adnoddau ar eu cyfer yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn yn ymarferol.

Sut i ddilysu a chyfrif y pleidleisiau

6.62 Sut bynnag y caiff y prosesau dilysu a chyfrif eu trefnu a'u rheoli, dylech sicrhau y bydd cynlluniau Swyddogion Canlyniadau Lleol yn sicrhau safon gyson wrth weinyddu'r agweddau hyn ar yr etholiad, fel y bydd yr etholiad yn ei gyfanrwydd yn arwain at ganlyniad cywir y gall pawb ymddiried ynddo.

6.63 Mae amrywiaeth o ddulliau o ddilysu'r papurau pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau. Gallwch benderfynu p'un a ddylid ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Canlyniadau Lleol ddefnyddio dulliau penodol, neu adael i bob Swyddog Canlyniadau Lleol ddewis ei ddull ei hun yn seiliedig ar yr hyn sydd fwyaf priodol i'w amgylchiadau lleol ac esbonio hynny i chi. Chi sy'n penderfynu pa ddull i'w ddefnyddio mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich ardal ac ar y cyd â hwy.

6.64 Pa ddull cyfrif bynnag a ddefnyddir dylai fod yn dryloyw ac arwain at ganlyniad cywir. Mae cyfrifo canlyniad lleol yn dibynnu ar ffigurau dilysu a chyfrif cywir, a bydd angen i chi ystyried yn benodol sut y byddwch yn sicrhau bod y cyfansymiau lleol a dderbyniwch oddi wrth Swyddogion Canlyniadau Lleol i goladu'r canlyniad yn gywir cyn i chi eu derbyn. Dylech baratoi templedi ar gyfer pob dogfen y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol ei chwblhau yn ystod y broses dilysu a chyfrif er mwyn rhoi trywydd archwilio clir.

6.65 Un dull cyfrif sy'n effeithiol iawn o ran sicrhau canlyniad cywir yw rhannu'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn ardaloedd sy'n llai na'r ardal bleidleisio gyfan. Mae rhannu'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn rhannau sy'n llai na'r ardal bleidleisio yn effeithiol iawn o ran sicrhau canlyniad cywir ac amserol ac iddo drywyddion archwilio clir. Yna caiff canlyniadau'r 'rhannau' hynny eu cyfuno i roi cyfanswm lleol cyffredinol ar gyfer yr ardal bleidleisio. Bydd unrhyw broblemau cyfrif sy'n codi wedi'u cyfyngu i ardal fwy hydryn a bydd unrhyw ailgyfrif a all ddigwydd o ganlyniad wedi'i gyfyngu o bosibl.

6.66 Beth bynnag fo'ch penderfyniad, dylech fod yn gallu bodloni'ch hun y gall cynlluniau Swyddogion Canlyniadau Lleol ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau gydymffurfio â'r egwyddorion ar gyfer proses dilysu a chyfrif effeithiol ac y byddant yn sicrhau canlyniad sy'n gywir ac y gall pawb ymddiried ynddo.

Coladu'r canlyniad

6.67 Dylech sicrhau bod proses o goladu'r canlyniad ar gyfer ardal yr heddlu ar waith fel y gallwch gyfrifo canlyniad yr etholiad.

6.68 Dylech sicrhau bod y broses o goladu'r canlyniad yn lleoliad coladu'r canlyniad ac mewn unrhyw leoliadau cyfrif eraill, yn dibynnu ar y ffordd y caiff y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau ei threfnu yn eich ardal heddlu, yn cael ei chyfleu mewn ffordd gyson a thryloyw i ymgeiswyr ac asiantau, y cyfryngau a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Os cynhelir y broses ddilysu a/neu gyfrif

mewn lleoliad(au) canolog, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth i'r rhai sy'n bresennol ynglŷn â'r prosesau hynny.

6.69 Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, mae'n rhaid i chi goladu cynnwys y datganiadau dilysu lleol a'r cyfansymiau cyfrif ar gyfer pob ardal bleidleisio, a chyfrifo a datgan y canlyniad cyffredinol ar gyfer ardal yr heddlu. Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, chi sy'n penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r broses hon yn eich ardal heddlu. Dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynlluniau i gyfrifo'r canlyniad.

Coladu'r canlyniad

6.70 Dylech benderfynu ar y broses a'r system y byddwch yn eu defnyddio i goladu datganiadau dilysu a chyfansymiau cyfrif lleol gan Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn cyfrifo canlyniad yr etholiad. Dylech hefyd ystyried beth fydd angen i chi ei roi ar waith o bosibl i ategu'r prosesau hyn, gan gynnwys protocolau a systemau, a sicrhau y cânt eu dilyn yn gyson a dylech gynnwys trefniadau wrth gefn yn eich cynlluniau rhag ofn na fydd unrhyw gyfleuster, adeilad na thechnoleg rydych yn bwriadu ei ddefnyddio neu ei defnyddio ar gael mwyach.

6.71 Dylech ystyried y ffordd orau o drefnu a rheoli'r broses ddwyffordd o drosglwyddo gwybodaeth rhyngoch chi a Swyddogion Canlyniadau Lleol, a gwirio, cofnodi a choladu gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol a chyfrifo'r canlyniad. Dylech ddatblygu protocolau a'u rhoi ar waith yn ôl yr angen ar gyfer cyfleu gwybodaeth rhwng Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, gan gynnwys cyfleu cyfansymiau cyfrif lleol.

6.72 Dylech benderfynu a oes angen i chi roi systemau neu raglenni TG ar waith er mwyn hwyluso hyn. Dylech o leiaf baratoi protocol ar gyfer cyfleu gwybodaeth a chyfansymiau lleol rhwng Swyddogion Canlyniadau Lleol a chi a'ch staff sy'n gweithio ar y broses o goladu'r canlyniad, gan gynnwys y broses o wirio cyfansymiau lleol ac awdurdodi iddynt gael eu rhannu'n gyhoeddus.

6.73 Pa brosesau a systemau bynnag a ddefnyddiwch i goladu'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff **6.35** uchod.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon [perfformiad 3](#), bydd angen i chi ddatblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno cyfansymiau lleol. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i reoli'r broses o goladu cyfansymiau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddir i Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn

6.74 Mae gan arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn yr hawl i arsylwi ar y canlynol:

- anfon a derbyn papurau pleidleisio post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau
- cyfrifo canlyniad yn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu⁵¹

6.75 Dylai eich cynllun prosiect gynnwys prosesau i reoli ymholiadau posibl gan arsylwyr a'u helpu i fod yn bresennol yn y prosesau etholiadol y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddynt. Dylai hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i arsylwyr ynglŷn â lleoliad ac amseriad y prosesau uchod.

6.76 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn yr hawl hefyd i arsylwi ar y prosesau hyn ac, yn ogystal â hynny, mae ganddynt yr hawl i arsylwi ar eich arferion gwaith.⁵²

6.77 Nid oes angen i arsylwyr achrededig na chynrychiolwyr y Comisiwn roi rhybudd ymlaen llaw ynghylch ble y bwriadant arsylwi, ond bydd ganddynt gerdyn adnabod â ffotograff a roddwyd gan y Comisiwn.

6.78 Os bydd gennych unrhyw amheuon ynglŷn â statws unigolyn penodol sy'n ceisio cael mynediad i brosesau etholiadol, gallwch edrych ar y rhestrau o arsylwyr ar [wefan y Comisiwn](#) am gadarnhad.

6.79 Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i ystyried [Cod Ymarfer y Comisiwn i arsylwyr](#) wrth reoli presenoldeb arsylwyr.⁵³ Bydd arsylwyr wedi cytuno i gydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yng Nghod Ymarfer y Comisiwn. Os credwch fod y Cod Ymarfer wedi cael ei dorri, rhowch wybod i [swyddfa leol y Comisiwn](#).

Atodiad A – Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr

Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr

Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl i fwrw eu pleidlais yn hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd

Canlyniad	Beth sydd angen i'r SC ei wneud i gyflawni hyn	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
<p>Pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw eu pleidlais</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn • Gwerthuso'r gwaith o gynllunio ar gyfer etholiadau blaenorol a'u cynnal a nodi'r gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddarau cynlluniau fel y bo angen • Rhoi trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r fanyleb • Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio na hysbysiad etholiad 	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd • Dogfennaeth gynllunio sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd • Trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr • Prosesau ar gyfer prawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio a hysbysiad etholiad • Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny • Gwybodaeth pleidleisio ar gael yn hawdd ar wefan yr awdurdod lleol

	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth • Sicrhau bod gwybodaeth am bleidleisio, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad a'r hysbysiad pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol 	
<p>Pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'u sefydlu • Penderfynu ar y ffordd y pennir etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn cael eu staffio'n gywir fel bod pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon, gan ystyried y ffactorau a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn • Sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio wedi'u hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr • Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn 	<ul style="list-style-type: none"> • Asesu anghenion mynediad, gan nodi unrhyw broblemau a chamau gweithredu i'w datrys • Y ffordd yr eir ati i bennu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio • Canllawiau/hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio • Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny

	<p>pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth</p>	
<p>Gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath • Cadw papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel drwy'r amser • Rhoi adnoddau ar waith i sicrhau bod y gwaith dilysu a chyfrif yn amserol • Sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu cyfleu i bleidleiswyr mewn ffordd glir ac amserol • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir 	<ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb • Trefniadau i storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel • Gwybodaeth am sut y caiff y gwaith dilysu a chyfrif ei drefnu a'i reoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych i ddod i'ch penderfyniad • Trefniadau ar gyfer cyfleu canlyniadau i bleidleiswyr • Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif

Safon perfformiad 2: Y sawl sydd am sefyll etholiad

Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

Canlyniad	Beth sydd angen i'r SC ei wneud i gyflawni hyn	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Mae'r sawl sydd am sefyll etholiad yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy ddarparu sesiynau briffio a sicrhau eu bod yn cael canllawiau ysgrifenedig Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y cyfle i'w papurau enwebu gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol 	<ul style="list-style-type: none"> Canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr Dyddiad(au) sesiynau briffio ac adnoddau briffio Trefniadau ar waith i ymgeiswyr gael eu papurau enwebu wedi'u gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol
Gall ymgeiswyr fod yn hyderus y caiff y broses ei rheoli'n dda, a chael hyder yn y canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y rhai sydd â'r hawl i fynd i sesiynau agor pleidleisiau post yn gallu dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd Sicrhau bod prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r broses dilysu a chyfrif yn digwydd o flaen pawb sydd â'r 	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun o sesiynau agor pleidleisiau post Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post Cynllun y cyfrif Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol yn y cyfrif

	<p>hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi iddynt ar y prosesau i'w dilyn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir • Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath 	<ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau ar waith i rannu hynnt y cyfrif • Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif • Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Safon perfformiad ar gyfer deiliaid swydd statudol sydd â phŵer cyfarwyddo

Safon perfformiad 3: Cyd-drefnu a rheoli'r etholiad

Cyd-drefnu'r gwaith cynllunio ar gyfer etholiad a chynnal etholiad er mwyn sicrhau profiad cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad

Canlyniad	Beth sydd angen i'r deiliad swydd statudol ei wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
<p>Sicrhau bod gan Swyddogion</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Canlyniadau lleol y trefniadau <input type="checkbox"/> angenrheidiol ar waith i gynnal <input type="checkbox"/> etholiadau wedi'u trefnu'n dda <input type="checkbox"/> yn eu hardal 	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn • Datblygu canllawiau a rhoi <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> cyfarwyddiadau lle y bo angen i sicrhau <input type="checkbox"/> y caiff yr etholiadau eu gweinyddu'n effeithiol yn ardal pob Swyddog Canlyniadau lleol • Datblygu a gweithredu cynlluniau ar <input type="checkbox"/> gyfer cyfathrebu â Swyddogion <input type="checkbox"/> Canlyniadau lleol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd • Trefniadau ar gyfer sicrhau y caiff <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> yr etholiad ei gynnal mewn modd cyson, gan gynnwys canllawiau a gyhoeddwyd a ph'un a ydych wedi defnyddio eich pŵer i roi cyfarwyddiadau a sut rydych wedi gwneud hynny • Cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â

	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a gweithredu strategaeth ar <input type="checkbox"/>gyfer cydgysylltu a darparu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal gyfan • Lle y bo'n briodol, datblygu proses ar <input type="checkbox"/>gyfer derbyn a chyflwyno canlyniadau <input type="checkbox"/>lleol 	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/>Swyddogion Canlyniadau Lleol • Strategaeth ar gyfer cydgysylltu a <input type="checkbox"/>darparu gweithgarwch <input type="checkbox"/>codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal gyfan • Trefniadau ynglŷn â sut rydych yn bwriadu rheoli'r broses o goladu canlyniadau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddwyd i Swyddogion Canlyniadau Lleol
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Atodiad B

Cymru		Lloegr	
Digwyddiad etholiadol	System bleidleisio	Digwyddiad etholiadol	System bleidleisio
Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru	System aelodau ychwanegol	Etholiad lleol (un sedd wag – prif ardal neu blwyf)	System y cyntaf i'r felin
Etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu (dim ond dau ymgeisydd yn sefyll etholiad)	System y cyntaf i'r felin	Etholiad lleol (sawl sedd wag – prif ardal neu blwyf)	System y cyntaf i'r felin
Etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu (mwy na dau ymgeisydd yn sefyll etholiad)	Pleidlais atodol	Refferendwm lleol	System y cyntaf i'r felin
Is-etholiadau lleol	System y cyntaf i'r felin	Etholiad maerol (dim ond dau ymgeisydd yn sefyll etholiad)	System y cyntaf i'r felin
		Etholiad maerol (mwy na dau ymgeisydd yn sefyll etholiad)	Pleidlais atodol
		Etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu (dim ond dau ymgeisydd)	System y cyntaf i'r felin

	yn sefyll etholiad)	
	Etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu (mwy na dau ymgeisydd yn sefyll etholiad)	Pleidlais atodol

¹ OS 2012/1917 Erth.2 ac OS 2012/1918 Erth.3.

² OS 2012/1917 Atod.3 para 4.

³ OS 2012/1917 Atod.3 paragraffau 5-16.

⁴ OS 2012/1918 Rheoliad 7.

⁵ OS 2012/1917 Erth 52(2) ac Atod 8.

⁶ OS 2012/1917 At.3 para 57 - 61.

⁷ OS 2012/1917 At.3 para 62.

⁸ OS 2012/1918 Rheoliad 3(4).

⁹ OS 2012/1918 Rheoliad 4(1).

¹⁰ OS 2012/1918 Rheoliad 4(2).

¹¹ Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Diwygio) 2015 Erth.6, OS 2012/1917 Erth.13A ac Atod.4.

¹² OS 2012/1917 Atod.4 para 21.

¹³ OS 2012/1917 Atod.4 para 22.

¹⁴ OS 2012/1917 Atod.4 paragraffau 29 i 37.

¹⁵ OS 2012/1917 Atod.4 para 19.

¹⁶ OS 2012/1917 Atod.4 para 24.

¹⁷ OS 2012/1917 Atod.4 para 27.

¹⁸ ...

¹⁹ OS 2012/1917 Atod.4 para 30

²⁰ OS 2012/1917 Atod.4 paragraffau 38-42.

²¹ Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Diwygio) 2015 Erth.5, OS 2012/1917 Atod.2 paragraffau 29 i 59B.

²² OS 2012/1917 Erth.2.

²³ OS 2012/1917 Atod.3 paragraffau 48-56.

²⁴ OS 2012/1917 Atod.3 para 57

²⁵ OS 2012/1918 rheoliad 3(3).

-
- ²⁶ OS 2012/1917 Atod.2 Rhan 3, Atod.3 paragraffau 25 a 33.
- ²⁷ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a.35
- ²⁸ OS 2012/1917 Erth.13 ac Atod 4. Gweler cyfeiriadau uchod at baragraff 3.16 am fanylion darpariaethau OS 2012/1917 Atod 4 sy'n gymwys ar gyfer pob un o'r dyletswyddau a restrir yma.
- ²⁹ OS 2012/2031 Erth.9 ac OS 2012/323 Erth.9.
- ³⁰ OS 2012/1917 Erth.2.
- ³¹ OS 2012/1917 Atod.3 Gweler cyfeiriadau uchod at baragraff 3.21 am fanylion darpariaethau Atod 3 sy'n gymwys ar gyfer pob un o'r dyletswyddau a restrir yma.
- ³² OS 2012/1918 Rheoliad 5(1).
- ³³ OS 2012/1918 Rheoliad 5(2).
- ³⁴ OS 2012/1917 Erth.19.
- ³⁵ OS 2012/1918 Rheoliad 6.
- ³⁶ OS 2012/1917 Erth.19(4).
- ³⁷ Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a.9A.
- ³⁸ OS 2012/1918 Rheoliad 7.
- ³⁹ OS 2012/1917 Atod.1 para.1.
- ⁴⁰ OS 2012/1917 Atod.1 para.2.
- ⁴¹ OS 2012/1917 Atod.2(3).
- ⁴² OS 2012/1917 Erth.52 ac Atod 8.
- ⁴³ OS 2012/1917 Atod.3 paragraffau 19 a 70, ffurflenni 8A ac 8B.
- ⁴⁴ OS 2012/1917 Atod.3 para 43.
- ⁴⁵ OS 2012/1917 Atod.4 para 15.
- ⁴⁶ OS 2012/1917 At.3 para 57
- ⁴⁷ OS 2012/1917 Atod. 3 paragraffau 59 a 60.
- ⁴⁸ OS 2012/1917 Atod.3 para 48(1).
- ⁴⁹ OS 2012/1917 Atod.3 para 49(6).
- ⁵⁰ OS 2012/1917 Atod.3 para 50.
- ⁵¹ Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a.6C. OS 2012/1917 Atod.2 paragraffau 31 a 32, Atod.3 paragraffau 34, 48, 51, 58.
- ⁵² Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a.6A. OS 2012/1917 Atod.2 paragraffau 31 a 32, Atod.3 paragraffau 10, 34, 48, 51, 58.
- ⁵³ Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a.6F(7).